



## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

### OFFERYNNAU STATUDOL

### STATUTORY INSTRUMENTS

**2006 Rhif 1794 (Cy.189)**

**2006 No. 1794 (W.189)**

### ADDYSG, CYMRU

### EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Grantiau Dysgu y  
Cynulliad (Sefydliadau  
Ewropeaidd) (Cymru) 2006**

**The Assembly Learning Grants  
(European Institutions) (Wales)  
Regulations 2006**

### NODYN ESBONIADOL

### EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymorth i fyfyrwyr a fydd yn cymryd cyrsiau addysg uwch dynodedig yng Nghanolfan Bologna, Coleg Ewrop neu Sefydliad Prifysgol Ewrop ("Sefydliadau Ewropeaidd") mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2006. Maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

These Regulations provide for support for students taking designated higher education courses at the Bologna Center, the College of Europe or the European University Institute ("European Institutions") in respect of the academic year beginning on or after 1 September 2006. They apply in relation to Wales only.

Yn ychwanegol, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau trosiannol penodol (rheoliadau 7 i 10) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2005 ond cyn 1 Medi 2006.

In addition, these Regulations make certain transitional provisions (regulations 7 to 10) in respect of the academic year commencing on or after 1 September 2005 but before 1 September 2006.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Sefydliadau Ewropeaidd) 2000. Mae Rheoliad 5 yn nodi hyd a lled y dirymu.

These Regulations revoke the Education (Student Support) (European Institutions) Regulations 2000. Regulation 5 sets out the extent of the revocation.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn nodi diffiniadau perthnasol, yn ogystal â darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed.

Part 1 of these Regulations sets out relevant definitions, as well as transitional and saving provisions.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r amodau y mae'n rhaid i fyfyrwr eu bodloni er mwyn bod â hawl i gael cymorth mewn cysylltiad â chwrs a ddarperir gan Sefydliad Ewropeaidd. Mae'r Rhan hon hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo rhwng cyrsiau a ddarperir gan Sefydliad Ewropeaidd.

Part 2 of these Regulations sets out the conditions that a student must satisfy in order to be eligible for support in connection with a course provided by a European Institution. This Part also makes provision for transfers between courses provided by a European Institution.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â'r terfynau amser a'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am gymorth a rhoi gwybodaeth mewn cysylltiad â chais.

Part 3 of these Regulations covers the time limits and procedure for applying for support and the provision of information in connection with an application.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r amrywiol fathau o grantiau sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n bresennol ar gyrsiau mewn Sefydliad Ewropeaidd a'r amodau y

Part 4 of these Regulations sets out the various types of grants available to students who are attending courses at a European Institution and the conditions

mae'n rhaid i fyfyrwr eu bodloni er mwyn bod â hawl i'w cael. Mae darpariaethau gwahanol yn cael eu gwneud yn unol â pha Sefydliad Ewropeaidd y mae'r myfyrwr yn astudio ynddo.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â chyfrifo a chymhwysio cyfraniad ariannol gan y myfyrwr yn achos myfyrwyr yng Ngholeg Ewrop ac yn Sefydliad Prifysgol Ewrop.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â thalu cymorth ac adennill gordaliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith ddarpariaethau Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 29 Ebrill 2004 (OJ L158, 30.04.2004, t.77-123) ar hawliau dinasyddion yr Undeb ac aelodau eu teuluoedd i symud a phreswyllo'n rhydd yn nhiriogaeth yr aelod-wladwriaethau i'r graddau y mae'r Gyfarwyddeb yn cyfeirio at gymorth i fyfyrwyr. Bydd gan gategoriâu penodol o berson nad oedd ganddynt hawl gynt i gael cymorth mewn cysylltiad â chyrsgiau a ddarperir gan y Sefydliadau Ewropeaidd hawl o ganlyniad i'r Gyfarwyddeb. I fod â hawl i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i fyfyrwr syrthio o fewn un o'r categorïau a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 1. Mae Atodlen 1 yn cynnwys y categorïau o berson y mae ganddynt hawl i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â chyrsgiau a ddarperir gan y Sefydliadau Ewropeaidd o ganlyniad i'r Gyfarwyddeb. Mae copi o'r Nodyn Trawsosod mewn perthynas â rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith i'r graddau y mae'n ymwneud â chymorth mewn cysylltiad â chyrsgiau a ddarperir gan y Sefydliadau Ewropeaidd ar gael ar wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus [www.opsi.gov.uk](http://www.opsi.gov.uk). Mae copi wedi'i osod yn llyfrgelloedd dau Dŷ'r Senedd.

that a student must satisfy in order to qualify for them. Different provision is made according to which European Institution the student is studying at.

Part 5 of these Regulations deals with the calculation and application of a financial contribution from the student in the case of students at the College of Europe and the European University Institute.

Part 6 of these Regulations deals with payments of support and the recovery of overpayments.

These Regulations implement the provisions of Directive 2004/38/EC of the European Parliament and of the Council of 29 April 2004 (OJ L158, 30.04.2004, p.77-123) on the rights of citizens of the Union and their family members to move and reside freely in the territory of the member states so far as the Directive relates to student support. Certain categories of person who were not formerly eligible for support in connection with courses provided by the European Institutions will be eligible as a result of the Directive. To qualify for support under these Regulations, a student must fall within one of the categories set out in Part 2 of Schedule 1. Schedule 1 includes the categories of person who are eligible for support under these Regulations in connection with courses provided by the European Institutions as a result of the Directive. A copy of the Transposition Note in relation to the implementation of the Directive in so far as it relates to support in connection with courses provided by the European Institutions is available or on the website of the Office of Public Sector Information [www.opsi.gov.uk](http://www.opsi.gov.uk). A copy has been placed in the libraries of both Houses of Parliament.

**2006 Rhif 1794 (Cy.189)****2006 No. 1794 (W.189)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Grantiau Dysgu y  
Cynulliad (Sefydliadau  
Ewropeaidd) (Cymru) 2006****The Assembly Learning Grants  
(European Institutions) (Wales)  
Regulations 2006***Wedi'u gwneud* 5 Gorffennaf 2006*Made* 5 July 2006*Yn dod i rym* 7 Gorffennaf 2006*Coming into force* 7 July 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau yn adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(1), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers in sections 22, 42(6) and 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998 Act 1998(1), makes the following Regulations:

**RHAN 1****PART 1**

## CYFFREDINOL

## GENERAL

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli****Title, commencement, application and interpretation**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Dysgu y Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 7 Gorffennaf 2006.

1. The title of these Regulations is the Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) Regulations 2006 and they come into force on 7 July 2006.

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

2. These Regulations apply in relation to Wales.

3.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

3.-(1) In these Regulations-

ystyr "awdurdod academaidd" ("*academic authority*"), mewn perthynas â sefydliad, yw'r corff llywodraethu neu'r corff arall sydd â swyddogaethau corff llywodraethu ac mae'n cynnwys person sy'n gweithredu gydag awdurdod y corff hwnnw;

"1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the Teaching and Higher Education Act 1998;

"2000 Regulations" ("*Rheoliadau 2000*") means the Education (Student Support) (European Institutions) Regulations 2000(2);

(1) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11; Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6; Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7. Mewn perthynas â Chymru, cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22.

(1) 1998 c. 30; section 22 was amended by the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), section 146 and Schedule 11; the Income Tax (Earnings and Pensions) Act 2003 (c. 1), Schedule 6; the Finance Act 2003 (c. 14), section 147 and the Higher Education Act 2004 (c. 8), sections 42 and 43 and Schedule 7. In relation to Wales, the functions of the Secretary of State under section 22 of the Teaching and Higher Education Act 1998 were transferred to the National Assembly for Wales under section 44 of the Higher Education Act 2004 except so far as they relate to the making of any provision authorised by subsection (2)(a), (c), (j) or (k), (3)(e) or (f) or (5) of section 22.

(2) S.I. 2000/2197, amended by S.I. 2001/563 and S.I. 2001/2892.

ystyr "blwyddyn academaidd gyfredol" ("*current academic year*") yw'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2005 ond ar neu cyn 31 Awst 2006;

ystyr "blwyddyn academaidd nesaf" ("*next academic year*") yw'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2006 ond ar neu cyn 31 Awst 2007;

ystyr "blwyddyn academaidd newydd" ("*new academic year*") yw blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2006;

ystyr "Coleg" ("*College*") yw Coleg Ewrop;

ystyr "cwrs cyfredol" ("*current course*") yw'r cwrs dynodedig y mae person yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas ag ef;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1998" ("*1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;

ystyr "dyddiad symud" ("*moving date*") yw'r dyddiad y mae'r ceisydd yn symud i Wlad Belg, yr Eidal neu Wlad Pwyl, yn ôl fel y digwydd, er mwyn-

- (a) bod yn bresennol ar y cwrs hyfforddiant iaith hwnnw mewn unrhyw achos lle mae'r sefydliad Ewropeaidd perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol iddo fod yn bresennol ar gwrs dwys o hyfforddiant iaith yn union cyn y cwrs dynodedig; neu
- (b) bod yn bresennol ar y cwrs dynodedig, mewn unrhyw achos arall;

ystyr "dyfarniad statudol" ("*statutory award*") yw unrhyw ddyfarniad a roddir, unrhyw grant a delir neu unrhyw gymorth arall a ddarperir yn rhinwedd Deddf 1998 neu Ddeddf Addysg 1962<sup>(1)</sup>, neu unrhyw ddyfarniad, grant neu gymorth arall cyffelyb mewn perthynas ag ymgymryd â chwrs sy'n cael ei dalu o'r cronfeydd cyhoeddus;

ystyr "y ddeddfwriaeth ar fenthyciadau i fyfyrwyr" ("*student loans legislation*") yw Deddf Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) 1990, Gorchymyn Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1990, Deddf Addysg (Yr Alban) 1980 a rheoliadau a wnaed odani, Gorchymyn Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1998 a rheoliadau a wnaed odano neu Ddeddf 1998 a

"academic authority" ("*awdurdod academaidd*") means in, relation to an institution, the governing body or other body having the functions of a governing body and includes a person acting with the authority of that body;

"College" ("*Coleg*") means the College of Europe;

"current academic year" ("*blwyddyn academaidd gyfredol*") means the academic year beginning on or after 1 September 2005 but on or before 31 August 2006;

"current course" ("*cwrs cyfredol*") means the designated course in respect of which a person is applying for support;

"current Directive student" ("*myfyriwr Cyfarwyddeb cyfredol*") means a Directive student who began the current course before 1 September 2006;

"current student" ("*myfyriwr cyfredol*") means a student who-

- (a) began the current course before 1 September 2006;
- (b) had been determined to be eligible for support in connection with his or her attendance on that course before 7 July 2006 pursuant to regulations under the 1998 Act; and
- (c) was ordinarily resident in Wales immediately before the moving date;

"Directive student" ("*myfyriwr Cyfarwyddeb*") means a person who-

- (a) falls within paragraph 6 of Part 2 of Schedule 1 by virtue of being-
  - (i) an EEA self-employed person;
  - (ii) a Swiss self-employed person;
  - (iii) a family member of an EEA self-employed person or a Swiss self-employed person;
  - (iv) a dependent direct relative in the ascending line of an EEA migrant worker or the spouse or civil partner of such a worker;
- (b) falls within paragraph 3 of Part 2 of Schedule 1;
- (c) falls within paragraph 9 of Part 2 of Schedule 1 by virtue of being a family member of an EC national;
- (d) falls within paragraph 8 of Part 2 of Schedule 1;

---

(1) 1962 p.12; amnewidiwyd adrannau 1 i 4 ac Atodlen 1 gan y darpariaethau a nodwyd yn Atodlen 5 i Ddeddf Addysg 1980 (p.20). Diwygiwyd adran 1(3)(d) gan Ddeddf Addysg (Grantiau a Dyfarniadau) 1984 (p.11), adran 4. Diwygiwyd adran 4 gan Ddeddf Addysg 1994 (p.30), Atodlen 2, paragraff 2. Cafodd y Ddeddf gyfan ei diddymu gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30), adran 44(2) ac Atodlen 4, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol a'r arbedion a nodwyd yng Ngorchymyn Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol) 1998 (O.S. 1998/3237), erthygl 3.

rheoliadau a wnaed odani;

ystyr "ffoadur" ("*refugee*") yw person a gydnabuwyd gan lywodraeth Ei Mawrhydi fel ffoadur o fewn ystyr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951<sup>(1)</sup> fel y'i hestynnwyd gan y Protocol a ddaeth i rym ar 4 Hydref 1967<sup>(2)</sup>;

ystyr "grantiau at gostau byw a chostau eraill" ("*grants for living and other costs*") yw'r grantiau sy'n daladwy o dan reoliadau 23 neu 25;

ystyr "grantiau atodol" ("*supplementary grants*") yw'r grantiau sy'n daladwy o dan Bennod 4 o Ran 4;

ystyr "y Gymuned Ewropeaidd" ("*European Community*") yw tiriogaeth Aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd fel y'i cyfansoddir o dro i dro;

ystyr "myfyriwr Cyfarwyddeb" ("*Directive student*") yw person sydd-

- (a) yn syrthio o fewn paragraff 6 o Ran 2 o Atodlen 1 yn rhinwedd y ffaith ei fod-
  - (i) yn berson hunangyflogedig o'r EEA;
  - (ii) yn berson hunangyflogedig o'r Swistir;
  - (iii) yn aelod o deulu person hunangyflogedig o'r EEA neu berson hunangyflogedig o'r Swistir;
  - (iv) yn berthynas uniongyrchol ddibynnol yn llinach esgynnol gweithiwr mudol o'r EEA neu'n briod neu'n bartner sifil i weithiwr o'r fath;
- (b) yn syrthio o fewn paragraff 3 o Ran 2 o Atodlen 1;
- (c) yn syrthio o fewn paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 1 yn rhinwedd y ffaith ei fod yn aelod o deulu gwladolyn o'r GE;
- (ch) yn syrthio o fewn paragraff 8 o Ran 2 o Atodlen 1;

ystyr "myfyriwr Cyfarwyddeb cyfredol" ("*current Directive student*") yw myfyriwr Cyfarwyddeb a ddechreuodd y cwrs cyfredol cyn 1 Medi 2006;

ystyr "myfyriwr cyfredol" ("*current student*") yw myfyriwr-

- (a) a ddechreuodd y cwrs cyfredol cyn 1 Medi 2006;

"eligible student" ("*myfyriwr cymwys*") has the meaning given by regulation 11;

"European Community" ("*y Gymuned Ewropeaidd*") means the territory comprised by the Member States of the European Community as constituted from time to time;

"European institution" ("*sefydliad Ewropeaidd*") means-

- (a) the Bologna Center;
- (b) the College of Europe;
- (c) the Institute;

"grants for living and other costs" ("*grantiau at gostau byw a chostau eraill*") means the grants payable under regulations 23 or 25;

"Institute" ("*Sefydliad*") means the European University Institute;

"moving date" ("*dyddiad symud*") means the date on which the applicant moves to Belgium, Italy or Poland, as the case may be, for the purpose of-

- (a) in any case where he or she is required by the relevant European institution to attend an intensive course of language tuition immediately before the designated course, attending that course of language tuition; or
- (b) in any other case, attending the designated course;

"new academic year" ("*blwyddyn academaidd newydd*") means an academic year beginning on or after 1 September 2006;

"new student" ("*myfyriwr newydd*") except in Schedule 2 means a student who-

- (a) begins the current course on or after 1 September 2006 but on or before 31 August 2007;
- (b) has been determined to be eligible for support in connection with his or her attendance on that course pursuant to the 2000 Regulations before 7 July 2006; and
- (c) is ordinarily resident in Wales;

"next academic year" ("*blwyddyn academaidd nesaf*") means the academic year beginning on or after 1 September 2006 but on or before 31 August 2007;

"refugee" ("*ffoadur*") means a person who is

(1) Cmnd. 9171.

(2) Cmnd. 3906 (allan o brint; mae llungopiau ar gael, am ddim, oddi wrth yr Adran Cymorth i Fyfyryr, Yr Adran Addysg a Sgiliau, Mowden Hall, Staindrop Road, Darlington DL3 9BG).

- (b) y dyfarnwyd bod ganddo hawl i gael cymorth mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar y cwrs hwnnw cyn 7 Gorffennaf 2006 yn unol â rheoliadau o dan Ddeddf 1998; ac
- (c) a oedd yn preswyllo fel arfer yng Nghymru yn union cyn y dyddiad symud;

mae i "myfyriwr cymwys" ("*eligible student*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 11;

ystyr "myfyriwr newydd" ("*new student*") ac eithrio yn Atodlen 2 yw myfyriwr-

- (a) sy'n dechrau'r cwrs cyfredol ar neu ar ôl 1 Medi 2006 ond ar neu cyn 31 Awst 2007;
- (b) y dyfarnwyd bod ganddo hawl i gael cymorth mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar y cwrs hwnnw yn unol â Rheoliadau 2000 cyn 7 Gorffennaf 2006; ac
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru;

ystyr "Rheoliadau 2000" ("*2000 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Sefydliadau Ewropeaidd) 2000(1);

ystyr "Sefydliad" ("*Institute*") yw Sefydliad Prifysgol Ewrop;

ystyr "sefydliad Ewropeaidd" ("*European institution*") yw-

- (a) Canolfan Bologna;
- (b) Coleg Ewrop;
- (c) y Sefydliad.

(2) Os yw'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at benderfyniad a wnaed (neu nas gwnaed) neu at beth arall a wnaed (neu nas gwnaed) gan y Cynulliad Cenedlaethol, yna, mewn perthynas ag unrhyw amser cyn i swyddogaeth gwneud y penderfyniad neu'r peth gael ei throsglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol pan oedd y swyddogaeth o dan sylw yn swyddogaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Rheoliadau 2000, mae'r cyfeiriad at y Cynulliad Cenedlaethol i gael ei ddarllen fel cyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol(2).

(1) O.S. 2000/2197, a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/563 ac O.S. 2001/2892.

(2) Mewn perthynas â Chymru, cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22: gweler Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) 2004, O.S. 2004/1833 (Cy.149).

recognised by Her Majesty's government as a refugee within the meaning of the United Nations Convention relating to the Status of Refugees done at Geneva on 28 July 1951(1) as extended by the Protocol which entered into force on 4 October 1967(2);

"statutory award" ("*dyfarniad statudol*") means any award bestowed, grant paid or other support provided by virtue of the 1998 Act or the Education Act 1962(3), or any comparable award, grant or other support in respect of undertaking a course which is paid out of public funds;

"student loans legislation" ("*y ddeddfwriaeth ar fenthyciadau i fyfyrwyr*") means the Education (Student Loans) Act 1990, the Education (Student Loans) (Northern Ireland) Order 1990, the Education (Scotland) Act 1980 and regulations made thereunder, the Education (Student Support) (Northern Ireland) Order 1998 and regulations made thereunder or the 1998 Act and regulations made thereunder;

"supplementary grants" ("*grantiau atodol*") means the grants payable under Chapter 4 of Part 4.

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

(2) Where these Regulations refer to a determination made (or not made) or other thing done (or not done) by the National Assembly, then, in relation to any time before the transfer to the National Assembly of the function of making the determination or the doing of the thing when the function in question was a function of the Secretary of State under the 2000 Regulations, the reference to the National Assembly is to be read as a reference to the Secretary of State(4).

(1) Cmnd. 9171.

(2) Cmnd. 3906 (out of print; photocopies are available, free of charge, from the Student Support Division, Department for Education and Skills, Mowden Hall, Staindrop Road, Darlington DL3 9BG).

(3) 1962 c.12; sections 1 to 4 and Schedule 1 were substituted by the provision sets out in Schedule 5 to the Education Act 1980 (c.20). Section 1(3)(d) was amended by the Education (Grants and Awards) Act 1984 (c.11), section 4. Section 4 was amended by the Education Act 1994 (c.30), Schedule 2, paragraph 2. The entire Act was repealed by the Teaching and Higher Education Act 1998 (c.30), section 44(2) and Schedule 4, subject to the transitional provisions and savings set out in the Teaching and Higher Education Act 1998 (Commencement No. 4 and Transitional Provisions) Order 1998 (S.I. 1998/3237), article 3.

(4) In relation to Wales, the functions of the Secretary of State under section 22 of the Teaching and Higher Education Act 1998 were transferred to the National Assembly for Wales under section 44 of the Higher Education Act 2004 except so far as they relate to the making of any provision authorised by subsection (2)(a), (c), (j) or (k), (3)(e) or (f) or (5) of section 22: see the Higher Education Act 2004 (Commencement No.2 and Transitional Provision) Order 2004, S.I. 2004/1833 (W.149).

## **Dirymu, arbed a darpariaethau trosiannol**

4. Mae Rheoliadau 2000, Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyriwr) (Sefydliadau Ewropeaidd) (Diwygio) 2001(1) a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyriwr) (Sefydliadau Ewropeaidd) (Diwygio) (Rhif 2) 2001(2) wedi'u dirymu mewn perthynas â Chymru.

5. Mae Rheoliadau 2000 yn parhau yn gymwys mewn perthynas â Chymru mewn perthynas â blwyddyn academaidd a ddechreuodd cyn 1 Medi 2005.

6. Yn ddarostyngedig i reoliadau 7 i 10, mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd newydd yn unig.

7.-(1) Mae unrhyw daliad cymorth sydd wedi'i wneud neu a oedd i'w wneud o dan Reoliadau 2000 i fyfyrwr cyfredol mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol i gael ei drin fel taliad sydd wedi'i wneud neu a oedd i'w wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), caiff y Cynulliad Cenedlaethol ailasesu, yn unol â'r Rheoliadau hyn, swm y cymorth sy'n daladwy i fyfyrwr cyfredol mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol.

(3) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn ailasesu swm y cymorth sy'n daladwy i fyfyrwr cyfredol yn unol â pharagraff (2) a bod swm y cymorth sy'n daladwy i'r myfyrwr yn gostwng, swm y cymorth sy'n daladwy i'r myfyrwr yw'r swm y penderfynwyd ei fod yn daladwy i'r myfyrwr o dan Reoliadau 2000.

(4) Caiff myfyrwr cyfredol wneud cais o dan y Rheoliadau hyn am gymorth mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd gyfredol os nad oedd wedi gwneud cais am gymorth o dan Reoliadau 2000 cyn 7 Gorffennaf 2006.

8.-(1) Os bu cyn 7 Gorffennaf 2006-

- (a) i fyfyrwr cyfredol neu ddarpar fyfyrwr wneud cais am gymorth o dan Reoliadau 2000 mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd nesaf; a
- (b) nad oedd penderfyniad wedi'i wneud, os yw hynny'n berthnasol, o ran a oedd gan y myfyrwr hawl i gael cymorth mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar y cwrs cyfredol neu o ran swm y cymorth a oedd yn daladwy, os oedd cymorth yn daladwy o gwbl, i'r myfyrwr hwinnw,

---

(1) O.S. 2001/563.

(2) O.S. 2001/2892.

## **Revocation, saving and transitional provisions**

4. The 2000 Regulations, the Education (Student Support) (European Institutions) (Amendment) Regulations 2001(1) and the Education (Student Support) (European Institutions) (Amendment) (No. 2) Regulations 2001(2) are revoked in relation to Wales.

5. The 2000 Regulations continue to apply in relation to Wales in respect of an academic year beginning before 1 September 2005.

6. Subject to regulations 7 to 10, these Regulations apply only in relation to the provision of support in connection with a new academic year.

7.-(1) Any payment of support that has been or was to be made under the 2000 Regulations to a current student in respect of the current academic year is to be treated as a payment made or to be made by the National Assembly under these Regulations.

(2) Subject to paragraph (3), the National Assembly may reassess, in accordance with these Regulations, the amount of support payable to a current student in respect of the current academic year.

(3) Where the National Assembly reassesses the amount of support payable to a current student in accordance with paragraph (2) and the amount of support payable to the student decreases, the amount of support payable to the student is the amount determined to be payable to him or her under the 2000 Regulations.

(4) A current student may apply under these Regulations for support in connection with the current academic year if he or she had not applied for support under the 2000 Regulations before 7 July 2006.

8.-(1) Where before 7 July 2006-

- (a) a current student or a prospective student applied for support under the 2000 Regulations in respect of the next academic year; and
- (b) no determination had been made, if relevant, as to whether the student was eligible for support in connection with his or her attendance on the current course or as to the amount of support payable, if any, to that student,

---

(1) S.I. 2001/563.

(2) S.I. 2001/2892.

mae'r cais i'w drin fel pe bai wedi'i wneud o dan y Rheoliadau hyn ac yn unol â hwy.

(2) Mae unrhyw daliad cymorth a wnaed neu sydd i'w wneud o dan Reoliadau 2000 i fyfyrwr cyfredol neu fyfyrwr newydd mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd nesaf cyn 7 Gorffennaf 2006 i'w drin fel taliad a wnaed neu sydd i'w wneud o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff y Cynulliad Cenedlaethol ailasesu, yn unol â'r Rheoliadau hyn, swm y cymorth y penderfynwyd cyn 7 Gorffennaf 2006 ei fod yn daladwy i fyfyrwr cyfredol neu fyfyrwr newydd mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd nesaf.

(4) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn ailasesu swm y cymorth sy'n daladwy i fyfyrwr cyfredol yn unol â pharagraff (2) a bod swm y cymorth sy'n daladwy i'r myfyrwr yn gostwng, swm y cymorth sy'n daladwy i'r myfyrwr yw'r swm y penderfynwyd ei fod yn daladwy i'r myfyrwr o dan Reoliadau 2000.

(5) At ddibenion paragraff (1), ystyr "darpar fyfyrwr" yw person-

- (a) sy'n dechrau'r cwrs cyfredol yn y flwyddyn academaidd nesaf; a
- (b) a wnaeth gais am gymorth o dan Reoliadau 2000 mewn perthynas â'r cwrs hwnnw cyn 7 Gorffennaf 2006; ond
- (c) nad oedd penderfyniad wedi'i wneud cyn 7 Gorffennaf 2006 ar ei gymhwystra i gael cymorth mewn cysylltiad â'r cwrs cyfredol.

9.-(1) Os oedd penderfyniad wedi'i wneud cyn 7 Gorffennaf 2006 o dan Reoliadau 2000 nad oedd person a oedd yn dechrau cwrs yn y flwyddyn academaidd gyfredol neu yn y flwyddyn academaidd nesaf yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar gwrs sydd wedi'i ddynodi at ddibenion rheoliad 4 o Reoliadau 2000-

- (a) caniateir trin cais y person hwnnw fel cais am gymorth a wnaed o dan y Rheoliadau hyn ac yn unol â hwy; a
- (b) caniateir i benderfyniad gael ei wneud felly, yn unol â'r Rheoliadau hyn, o ran a yw'r ceisydd yn fyfyrwr cymwys ac os felly, ar swm y cymorth sy'n daladwy iddo mewn perthynas â'r canlynol (os oes cymorth yn daladwy o gwbl)-
  - (i) yn achos person a ddechreuodd ei gwrs yn y flwyddyn academaidd gyfredol, y flwyddyn academaidd gyfredol a'r flwyddyn academaidd nesaf; a
  - (ii) yn achos person sy'n dechrau ei gwrs yn y flwyddyn academaidd nesaf, y flwyddyn academaidd honno.

the application is to be treated as if it had been made under and in accordance with these Regulations.

(2) Any payment of support made or to be made under the 2000 Regulations to a current student or a new student in respect of the next academic year before 7 July 2006 is to be treated as a payment made or to be made under these Regulations.

(3) Subject to paragraph (4), the National Assembly may reassess, in accordance with these Regulations, the amount of support determined before 7 July 2006 to be payable to a current student or a new student in respect of the next academic year.

(4) Where the National Assembly reassesses the amount of support payable to a current student in accordance with paragraph (2) and the amount of support payable to the student decreases, the amount of support payable to the student is the amount determined to be payable to him or her under the 2000 Regulations.

(5) For the purposes of paragraph (1), "prospective student" means a person-

- (a) who starts the current course in the next academic year; and
- (b) applied for support under the 2000 Regulations in respect of that course before 7 July 2006; but
- (c) in respect of whom no decision as to his or her eligibility for support in connection with the current course had been made before 7 July 2006.

9.-(1) If before 7 July 2006 a determination had been made under the 2000 Regulations that a person starting a course in the current academic year or in the next academic year was not an eligible student in connection with his or her attendance on a course designated for the purpose of regulation 4 of the 2000 Regulations-

- (a) that person's application may be treated as an application for support made under and in accordance with these Regulations; and
- (b) a determination may accordingly be made, in accordance with these Regulations, as to whether the applicant is an eligible student and if so, the amount of support (if any) payable to him or her in respect of-
  - (i) in the case of a person who started his or her course in the current academic year, the current academic year and the next academic year; and
  - (ii) in the case of a person who starts his or her course in the next academic year, that academic year.



10. Caiff myfyriwr Cyfarwyddeb cyfredol wneud cais o dan y Rheoliadau hyn am gymorth neu am swm ychwanegol o gymorth mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd gyfredol.

10. A current Directive student may apply under these Regulations for support or an additional amount of support in connection with the current academic year.

## RHAN 2

## PART 2

### CYMHWYSTRA

### ELIGIBILITY

#### Myfyrwyr cymwys

11.-(1) Mae gan fyfyriwr cymwys hawl i gael cymorth ariannol mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar gwrs dynodedig yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn ac yn unol â hwy.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae person yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi penderfynu-

- (a) ei fod yn syrthio o fewn un o'r categorïau yn Rhan 2 o Atodlen 1; a
- (b) y dylai fod ganddo hawl, ar sail teilyngdod, i gael cymorth mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar y cwrs hwnnw.

(3) Nid yw person yn fyfyriwr cymwys-

- (a) os yw'r person hwnnw, yn ddarostyngedig i baragraff (4), wedi bod yn bresennol ar gwrs cymwys;
- (b) os yw wedi torri unrhyw rwymedigaeth i adalu unrhyw fenthyciad;
- (c) os yw'r person hwnnw wedi cyrraedd ei 18 oed ac nad yw wedi dilysu unrhyw gytundeb ynglŷn â benthyciad a wnaed gydag ef pan oedd o dan 18 oed; neu
- (ch) os yw'r person hwnnw, ym marn y Cynulliad Cenedlaethol, wedi dangos drwy ei ymddygiad nad yw'n berson addas i gael cymorth.

(4) Nid yw paragraff (3)(a) yn gymwys os yw'r person wedi bod yn bresennol ar gwrs cymwys ond bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi penderfynu, o roi sylw i amgylchiadau penodol achos y person hwnnw, ei bod yn briodol talu cymorth iddo mewn cysylltiad â'r cwrs cyfredol.

(5) At ddibenion paragraff (3)(b) ac (c), ystyr "benthyciad" yw benthyciad sy'n cael ei wneud o dan y ddeddfwriaeth ar fenthyciadau i fyfyrwyr.

(6) Mewn achos lle mae'r cytundeb ynglŷn â benthyciad yn ddarostyngedig i gyfraith yr Alban, dim ond os cafodd y cytundeb ei wneud-

- (a) cyn 25 Medi 1991; a
- (b) gyda chydysyniad curadur y benthyciwr neu ar adeg pan nad oedd ganddo guradur

y mae paragraff 3(c) yn gymwys.

#### Eligible students

11.-(1) An eligible student qualifies for financial support in connection with his or her attendance on a designated course subject to and in accordance with these Regulations.

(2) Subject to paragraph (3), a person is an eligible student in connection with a designated course if the National Assembly has determined that-

- (a) he or she falls within one of the categories in Part 2 of Schedule 1; and
- (b) by reason of merit he or she should be eligible for support in connection with his or her attendance at that course.

(3) A person is not an eligible student if-

- (a) subject to paragraph (4), that person has attended a qualifying course;
- (b) he or she is in breach of an obligation to repay any loan;
- (c) that person has reached the age of 18 and not ratified any agreement for a loan made with him or her when he or she was under the age of 18; or
- (d) that person has, in the opinion of the National Assembly, shown by his or her conduct to be a person unfitted to receive support.

(4) Paragraph (3)(a) does not apply where the person has attended a qualifying course but the National Assembly has determined that having regard to the particular circumstances of that person's case it is appropriate to pay him or her support in connection with the current course.

(5) For the purposes of paragraph (3)(b) and (c), "loan" means a loan made under the student loans legislation.

(6) In a case where the agreement for a loan is subject to the law of Scotland, paragraph (3)(c) only applies if the agreement was made-

- (a) before 25 September 1991; and
- (b) with the concurrence of the borrower's curator or at a time when he or she had no curator.

(7) Ni chaiff myfyriwr cymwys y mae blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs yn dechrau mewn perthynas ag ef ar neu ar ôl 1 Medi 2000 fod â hawl i gael cymorth at fwy nag un cwrs dynodedig ar unrhyw adeg.

(8) Mae person yn fyfyrwr cymwys hefyd at ddibenion y Rheoliadau hyn-

- (a) os yw-
  - (i) yn fyfyrwr cyfredol; neu
  - (ii) yn fyfyrwr newydd; a
- (b) nad oedd penderfyniad wedi'i wneud cyn 7 Gorffennaf 2006 na ddylai fod ganddo hawl mwyach i gael cymorth mewn cysylltiad â'r cwrs cyfredol.

(9) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "cwrw cymwys" yw cwrw-

- (a) sydd-
  - (i) yn gwrw ôl-raddedig neu'n gwrw tebyg; a
  - (ii) yn para am o leiaf ddwy flwyddyn academaidd; a
- (b) y cafodd y myfyriwr ddyfarniad statudol mewn perthynas ag ef heblaw dyfarniad y bwriedid iddo helpu gyda gwariant ychwanegol yr oedd yn rhaid i'r myfyriwr ei dynnu mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar y cwrs oherwydd anabledd sydd neu a oedd ganddo am o leiaf ddwy flwyddyn academaidd o'r cwrs.

### Cyrsiau dynodedig

12. Mae cwrs yn gwrw dynodedig at ddibenion adran 22(1) o Ddeddf 1998 a rheoliad 11 os yw-

- (a) yn gwrw ôl-raddedig neu'n gwrw tebyg;
- (b) yn gwrw amser-llawn;
- (c) yn para am o leiaf un flwyddyn academaidd; ac
- (ch) yn cael ei ddarparu gan sefydliad Ewropeaidd.

### Cyfnod cymhwystra

13.-(1) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau canlynol, bydd statws myfyriwr fel myfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd pryd y byddai'r sefydliad Ewropeaidd perthnasol yn disgwyl fel arfer i'r myfyriwr gwblhau'r cwrs ("cyfnod cymhwystra").

(2) Mae cyfnod cymhwystra'r myfyriwr yn dod i ben pan fydd y myfyriwr-

- (a) yn tynnu'n ôl o'i gwrw dynodedig o dan amgylchiadau lle na fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn trosglwyddo statws y myfyriwr fel myfyriwr cymwys yn unol â rheoliad 14; neu

(7) An eligible student in respect of whom the first academic year of the course begins on or after 1 September 2000 may not, at any time, qualify for support for more than one designated course.

(8) A person is also an eligible student for the purposes of these Regulations if-

- (a) he or she is-
  - (i) a current student ; or
  - (ii) a new student; and
- (b) no determination was made before 7 July 2006 that he or she should no longer be eligible for support in connection with the current course.

(9) For the purposes of this regulation, "qualifying course" means a course-

- (a) which is-
  - (i) a postgraduate or comparable course; and
  - (ii) of at least two academic years' duration; and
- (b) in respect of which the student received a statutory award other than an award intended to assist with additional expenditure that the student was obliged to incur in connection with his or her attendance on the course by reason of a disability to which he or she is or was subject for at least two academic years of the course.

### Designated courses

12. A course is designated for the purposes of section 22(1) of the 1998 Act and regulation 11 if it is-

- (a) a postgraduate or comparable course;
- (b) a full-time course;
- (c) of at least one academic year's duration; and
- (d) provided by a European institution.

### Period of eligibility

13.-(1) Subject to the following paragraphs, a student's status as an eligible student in connection with a designated course will terminate at the end of the academic year in which the relevant European institution would ordinarily expect the student to complete the course ("period of eligibility").

(2) The student's period of eligibility terminates when the student-

- (a) withdraws from his or her designated course in circumstances in which the National Assembly will not transfer his or her status as an eligible student in accordance with regulation 14; or

(b) yn rhoi'r gorau i'w gwrs dynodedig neu'n cael ei ddiarddel oddi arno.

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol derfynu cyfnod cymhwysra'r myfyriwr os yw wedi'i fodloni bod ymddygiad y myfyriwr wedi dangos nad yw'n addas i gael cymorth.

(4) Os bydd cyfnod cymhwysra'r myfyriwr yn dod i ben o dan baragraff (1) cyn diwedd y flwyddyn academaidd pryd y bydd y myfyriwr yn cwblhau'r cwrs mewn gwirionedd, caiff y Cynulliad Cenedlaethol, ar unrhyw adeg, ymestyn neu adnewyddu'r cyfnod cymhwysra am unrhyw gyfnod y bydd yn penderfynu arno.

(5) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni bod myfyriwr cymwys wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i roi gwybodaeth o dan y Rheoliadau hyn neu ei fod wedi rhoi gwybodaeth sy'n anghywir o ran manylyn perthnasol, caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud un neu fwy o'r canlynol-

- (a) terfynu cyfnod cymhwysra'r myfyriwr;
- (b) penderfynu nad oes gan y myfyriwr hawl mwyach i gael unrhyw fath penodol o gymorth neu unrhyw swm penodol o gymorth;
- (c) trin unrhyw gymorth a dalwyd i'r myfyriwr eisoes fel gordaliad y caniateir ei adennill yn unol â rheoliad 42.

### Trosglwyddo cymhwysra

14.-(1) Pan fydd myfyriwr cymwys yn trosglwyddo i gwrs dynodedig arall yn yr un sefydliad Ewropeaidd, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol drosglwyddo statws y myfyriwr fel myfyriwr cymwys-

- (a) os daw cais i law oddi wrth y myfyriwr cymwys i wneud hynny;
- (b) os yw wedi'i fodloni bod y myfyriwr cymwys wedi dechrau bod yn bresennol ar y cwrs arall hwnnw ar argymhelliad yr awdurdod academaidd; ac
- (c) os nad yw statws y myfyriwr fel myfyriwr cymwys wedi dod i ben.

(2) Mae myfyriwr cymwys sy'n trosglwyddo o dan baragraff (1) i gael mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'n trosglwyddo iddo weddill y cymorth a aseswyd gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'n trosglwyddo oddi wrtho.

(3) Ni chaiff myfyriwr cymwys sy'n trosglwyddo o dan baragraff (1) ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol asesu cymorth mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'r myfyriwr yn trosglwyddo oddi wrtho ond cyn i'r myfyriwr gwblhau'r flwyddyn honno, mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'n trosglwyddo iddo, wneud cais am grant arall o fath y mae eisoes wedi gwneud cais amdano o dan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae'n trosglwyddo oddi wrtho.

(b) abandons or is expelled from his or her designated course.

(3) The National Assembly may terminate the student's period of eligibility if it is satisfied that the conduct of the student has shown that he or she is unfitted to receive support.

(4) Where the student's period of eligibility will terminate under paragraph (1) before the end of the academic year in which the student will actually complete the course, the National Assembly may, at any time, extend or renew the period of eligibility for such period as it determines.

(5) If the National Assembly is satisfied that an eligible student has failed to comply with any requirement to provide information under these Regulations or has provided information which is inaccurate in a material particular, the National Assembly may do one or more of the following-

- (a) terminate the student's period of eligibility;
- (b) determine that the student no longer qualifies for any particular type of support or particular amount of support;
- (c) treat any support already paid to the student as an overpayment which may be recovered in accordance with regulation 42.

### Transfer of eligibility

14.-(1) Where an eligible student transfers to another designated course at the same European institution, the National Assembly must transfer the student's status as an eligible student where-

- (a) it receives a request from the eligible student to do so;
- (b) it is satisfied that the eligible student has begun to attend that other course on the recommendation of the academic authority; and
- (c) the student's status as an eligible student has not terminated.

(2) An eligible student who transfers under paragraph (1) is to receive in connection with the academic year of the course to which he or she transfers the remainder of the support assessed by the National Assembly in respect of the academic year of the course from which he or she transfers.

(3) An eligible student who transfers under paragraph (1) after the National Assembly has assessed support in connection with the academic year of the course from which the student is transferring but before the student completes that year may not, in connection with the academic year of the course to which he or she transfers, apply for another grant of a kind that he or she has already applied for under these Regulations in connection with the academic year of the course from which he or she is transferring.

## RHAN 3

### GWNEUD CAIS AM GYMORTH A RHOI GWYBODAETH

#### Ceisiadau am gymorth ariannol

15.-(1) Rhaid i berson (y "ceisydd") wneud cais am gymorth mewn cysylltiad â phob blwyddyn academaidd ar gwrs dynodedig drwy lenwi a chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol gais ar unrhyw ffurf a chan ddarparu unrhyw ddogfennau y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn amdanynt.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol gymryd unrhyw gamau a gwneud unrhyw ymholiadau y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol er mwyn penderfynu a yw'r ceisydd yn fyfyrwr cymwys, a oes gan y ceisydd hawl i gael cymorth a swm y cymorth sy'n daladwy, os oes cymorth yn daladwy o gwbl.

(3) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r ceisydd a oes gan y ceisydd hawl neu beidio i gael cymorth ac, os oes gan y ceisydd hawl, swm y cymorth sy'n daladwy mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd, os oes cymorth yn daladwy o gwbl.

#### Terfynau amser

16.-(1) Y rheol gyffredinol yw bod rhaid i'r cais gyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol erbyn 31 Awst 2006.

(2) Nid yw'r rheol gyffredinol ym mharagraff (1) yn gymwys-

- (a) os yw'r cais yn cael ei wneud gan fyfyrwr cyfredol fel y darperir ar ei gyfer yn rheoliad 7(4), ac os felly rhaid i'r cais gyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol erbyn 30 Ionawr 2007 fan bellaf;
- (b) os yw'r cais yn cael ei wneud gan fyfyrwr Cyfarwydddeb cyfredol mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol, ac os felly rhaid i'r cais gyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol erbyn 30 Ionawr 2007 fan bellaf;
- (c) os bydd un o'r digwyddiadau a ddisgrifir ym mharagraff (3) yn digwydd, ac os felly rhaid i'r cais gyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol o fewn cyfnod o naw mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod y mae'r digwyddiad perthnasol yn digwydd;
- (ch) os yw'r ceisydd yn gwneud cais am y grant sy'n daladwy o dan reoliad 27, ac os felly rhaid i'r cais gyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol; neu
- (d) os yw'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn, ar ôl rhoi sylw i amgylchiadau'r achos penodol, y dylid llacio'r terfyn amser, ac os felly rhaid i'r cais gyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir ganddo.

## PART 3

### APPLYING FOR SUPPORT AND PROVISION OF INFORMATION

#### Applications for financial support

15.-(1) A person (the "applicant") must apply for support in connection with each academic year of a designated course by completing and submitting to the National Assembly an application in such form and accompanied by such documentation as the National Assembly may require.

(2) The National Assembly may take such steps and make such inquiries as it considers necessary to determine whether the applicant is an eligible student, whether he or she qualifies for support and the amount of support payable, if any.

(3) The National Assembly must notify the applicant of whether the applicant qualifies for support and, if he or she does qualify, the amount of support payable in respect the academic year, if any.

#### Time limits

16.-(1) The general rule is that the application must reach the National Assembly by 31 August 2006.

(2) The general rule in paragraph (1) does not apply where-

- (a) the application is made by a current student as provided for in regulation 7(4), in which case the application must reach the National Assembly no later than 30 January 2007;
- (b) the application is made by a current Directive student in respect of the current academic year, in which case the application must reach the National Assembly no later than 30 January 2007;
- (c) one of the events described in paragraph (3) occurs, in which case the application must reach the National Assembly within a period of nine months beginning with the day on which the relevant event occurs;
- (d) the applicant is applying for the grant payable under regulation 27, in which case the application must reach the National Assembly as soon as reasonably practicable; or
- (e) the National Assembly considers that having regard to the circumstances of the particular case the time limit should be relaxed, in which case the application must reach the National Assembly not later than the date it specifies.

(3) Dyma'r digwyddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)(c)-

- (a) bod priod, partner sifil neu riant y ceisydd-
  - (i) yn cael ei gydnabod fel ffoadur; neu
  - (ii) yn dod yn berson a chanddo ganiatâd i ddod i mewn neu aros fel y'i disgrifir ym mharagraff 1 o Ran 1 o Atodlen 1;
- (b) bod gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Gymuned Ewropeaidd a bod y ceisydd yn un o wladolion y wladwriaeth honno neu'n aelod o deulu person sy'n un o wladolion y wladwriaeth honno;
- (c) bod y ceisydd yn dod yn aelod o deulu gwladolyn o'r GE;
- (ch) bod y ceisydd yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 6(1)(a)(iii) neu (vi) o Ran 2 o Atodlen 1; neu
- (d) bod y ceisydd yn dod yn blentyn i wladolyn o'r Swistir.

### Gwybodaeth

17. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael cais am wneud hynny, rhaid i bob ceisydd a phob myfyriwr cymwys roi i'r Cynulliad Cenedlaethol unrhyw wybodaeth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu bod arno ei hangen at ddibenion y Rheoliadau hyn.

18. Rhaid i bob ceisydd a phob myfyriwr cymwys roi gwybod ar unwaith i'r Cynulliad Cenedlaethol a rhoi'r manylion iddo os bydd unrhyw rai o'r canlynol yn digwydd-

- (a) ei fod yn tynnu'n ôl o'r cwrs, yn rhoi'r gorau iddo neu'n cael ei ddiarddel oddi arno;
- (b) ei fod yn trosglwyddo i gwrs arall yn yr un Sefydliad Ewropeaidd;
- (c) ei fod yn rhoi'r gorau i fod yn bresennol ar y cwrs ac nad yw'n bwriadu parhau ag ef am weddill y flwyddyn academiaidd neu nad yw'n cael caniatâd i barhau ag ef am weddill y flwyddyn academiaidd;
- (ch) ei fod yn absennol o'r cwrs am fwy na 60 diwrnod oherwydd salwch neu am unrhyw gyfnod am unrhyw reswm arall;
- (d) bod y mis ar gyfer dechrau'r cwrs neu ei gwblhau yn newid;
- (dd) bod ei gyfeiriad gartref neu ei gyfeiriad yn ystod y tymor yn newid.

19. Rhaid i'r wybodaeth a roddir i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r Rheoliadau hyn fod yn y ffurf y gofynnir amdani gan y Cynulliad Cenedlaethol ac, os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn bod yr wybodaeth yn cael ei llofnodi gan y person sy'n ei rhoi, mae llofnod electronig ar unrhyw ffurf a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn bodloni'r gofyniad hwn.

(3) The events referred to in paragraph (2)(c) are-

- (a) the applicant's spouse, civil partner or parent-
  - (i) is recognised as a refugee; or
  - (ii) becomes a person with leave to enter or remain as described in paragraph 1 of Part 1 of Schedule 1;
- (b) a state accedes to the European Community and the applicant is a national of that state or a family member of a person who is a national of that state;
- (c) the applicant becomes a family member of an EC national;
- (d) the applicant becomes a person described in paragraph 6(1)(a)(iii) or (vi) of Part 2 of Schedule 1; or
- (e) the applicant becomes the child of a Swiss national.

### Information

17. Every applicant and eligible student must, as soon as reasonably practicable after he or she is requested to do so, provide the National Assembly with such information as the National Assembly considers it requires for the purposes of these Regulations.

18. Every applicant and eligible student must immediately inform the National Assembly and provide the Assembly with particulars if-

- (a) he or she withdraws from, abandons or is expelled from the course;
- (b) he or she transfers to another course at the same European Institution;
- (c) he or she ceases to attend the course and does not intend to or is not permitted to continue it for the remainder of the academic year;
- (d) he or she is absent from the course for more than 60 days due to illness or for any period for any other reason;
- (e) the month for the start or the completion of the course changes;
- (f) his or her home or term-time address changes.

19. Information provided to the National Assembly pursuant to these Regulations must be in the format required by the Assembly and, if the Assembly requires the information to be signed by the person providing it, an electronic signature in such form as it may specify satisfies this requirement.

## RHAN 4

### CYMORTH ARIANNOL

#### Cyffredinol

20.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), y rheol gyffredinol yw-

- (a) bod gan fyfyrwr cymwys sy'n bresennol ar gwrs dynodedig a ddarperir gan Ganolfan Bologna ("myfyrwr yng Nghanolfan Bologna") hawl i gael cymorth mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd ar y cwrs hwnnw yn unol â darpariaethau Pennod 1;
- (b) bod gan fyfyrwr cymwys sy'n bresennol ar gwrs dynodedig a ddarperir gan Goleg Ewrop ("myfyrwr yng Ngholeg Ewrop") hawl mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd ar y cwrs hwnnw i gael-
  - (i) grant at ffioedd a grantiau at gostau byw a chostau eraill yn unol â Phennod 2; a
  - (ii) grantiau atodol yn unol â Phennod 4; ac
- (c) bod gan fyfyrwr cymwys sy'n bresennol ar gwrs dynodedig a ddarperir gan y Sefydliad ("myfyrwr yn y Sefydliad") hawl mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd i gael-
  - (i) grantiau at gostau byw a chostau eraill yn unol â Phennod 3; a
  - (ii) grantiau atodol yn unol â Phennod 4.

(2) Os yw'r flwyddyn academaidd y mae'r myfyrwr cymwys wedi gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi yn flwyddyn o ailadrodd astudiaethau, caiff y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu-

- (a) nad oes gan y myfyrwr hawl i gael math neu swm penodol o gymorth mewn perthynas â'r flwyddyn o ailadrodd astudiaethau; neu
- (b) nad oes gan y myfyrwr hawl i gael dim cymorth mewn perthynas â'r flwyddyn o ailadrodd astudiaethau.

(3) Wrth benderfynu a ddylai fod gan fyfyrwr cymwys hawl i gael rhyw gymorth neu unrhyw gymorth yn unol â pharagraff (2) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi sylw i amgylchiadau'r achos ac yn benodol i'r rhesymau pam y gofynnwyd i'r myfyrwr ailadrodd blwyddyn academaidd.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "blwyddyn o ailadrodd astudiaethau" yw blwyddyn academaidd y mae'r myfyrwr wedi bod yn bresennol arni o'r blaen ond y mae'r Sefydliad Ewropeaidd perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol iddo fod yn bresennol arni eto.

## PART 4

### FINANCIAL SUPPORT

#### General

20.-(1) Subject to paragraph (2), the general rule is that-

- (a) an eligible student who is attending a designated course provided by the Bologna Center ("Bologna Center student") qualifies for support in connection with an academic year of that course in accordance with the provisions of Chapter 1;
- (b) an eligible student who is attending a designated course provided by the College of Europe ("College of Europe student") qualifies in connection with an academic year of that course for-
  - (i) a grant for fees and grants for living and other costs in accordance with Chapter 2; and
  - (ii) supplementary grants in accordance with Chapter 4; and
- (c) an eligible student who is attending a designated course provided by the Institute ("Institute student") qualifies in connection with an academic year for-
  - (i) grants for living and other costs in accordance with Chapter 3; and
  - (ii) supplementary grants in accordance with Chapter 4.

(2) If the academic year in respect of which the eligible student has applied for support is a year of repeat study the National Assembly may determine that-

- (a) the student does not qualify for a particular type or amount of support in respect of the year of repeat study; or
- (b) that student does not qualify for any support in respect of the year of repeat study.

(3) In determining whether an eligible student should not qualify for some or any support in accordance with paragraph (2) the National Assembly must have regard to the circumstances of the case and in particular the reasons for which the student has been required to repeat an academic year.

(4) For the purposes of this regulation, "year of repeat study" means an academic year which the student has previously attended but is required by the relevant European Institution to attend again.

## PENNOD 1

### GRANTIAU AT FFIOEDD I FYFYRWYR YNG NGHANOLFAN BOLOGNA

#### Grant at ffioedd

21.-(1) Mae gan fyfyrwr yng Nghanolfan Bologna hawl i gael grant at ffioedd mewn perthynas â blwyddyn academaidd ar y cwrs cyfredol wedi'i gyfrifo yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), swm y grant at ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw cyfanswm y ffioedd sy'n daladwy gan y myfyrwr mewn perthynas â bod yn bresennol ar y cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd honno, neu fel arall mewn cysylltiad â bod yn bresennol arno.

(3) Er gwaethaf paragraff (2), nid yw'r grant at ffioedd sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn i fod yn fwy na 22,700 ewro.

## PENNOD 2

### GRANTIAU I FYFYRWYR YNG NGHOLEG EWROP

#### Grant at ffioedd

22.-(1) Mae gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop hawl i gael grant at ffioedd mewn perthynas â blwyddyn academaidd ar y cwrs cyfredol wedi'i gyfrifo yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), swm y grant at ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw cyfanswm y ffioedd sy'n daladwy gan y myfyrwr mewn perthynas â bod yn bresennol ar y cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd honno, neu fel arall mewn cysylltiad â bod yn bresennol arno.

(3) Er gwaethaf paragraff (2), nid yw swm y grant at ffioedd i fod yn fwy na'r canlynol-

- (a) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol, 9,450 ewro; a
- (b) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd arall, 10,250 ewro.

#### Grantiau at gostau byw a chostau eraill

23.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop hawl mewn perthynas â blwyddyn academaidd i gael y grantiau at gostau byw a chostau eraill a bennir ym mharagraffau (3) i (7) ac a gyfrifir yn unol â hwy.

(2) Nid oes gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop hawl i gael yr un o'r grantiau sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 1 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyrwr yn syrthio odano.

## CHAPTER 1

### GRANTS FOR FEES FOR BOLOGNA CENTER STUDENTS

#### Grant for fees

21.-(1) A Bologna Center student qualifies for a grant for fees in respect of an academic year of the current course calculated in accordance with paragraph (2).

(2) Subject to paragraph (3), the amount of grant for fees payable in respect of an academic year is the aggregate amount of fees payable by the student in respect of, or otherwise in connection with, his or her attendance on the course during that academic year.

(3) Despite paragraph (2), the grant for fees payable under this regulation is not to exceed 22,700 euro.

## CHAPTER 2

### GRANTS FOR COLLEGE OF EUROPE STUDENTS

#### Grant for fees

22.-(1) A College of Europe student qualifies for a grant for fees in respect of an academic year of the current course calculated in accordance with paragraph (2).

(2) Subject to paragraph (3), the amount of grant for fees payable in respect of an academic year is the aggregate amount of fees payable by the student in respect of, or otherwise in connection with, his or her attendance on the current course during that academic year.

(3) Despite paragraph (2), the amount of grant for fees is not to exceed-

- (a) in respect of the current academic year, 9,450 euro; and
- (b) in respect of any other academic year, 10,250 euro.

#### Grants for living and other costs

23.-(1) Subject to paragraph (2), a College of Europe Student qualifies in respect of an academic year for the grants for living and other costs specified in and calculated in accordance with paragraphs (3) to (7).

(2) A College of Europe student does not qualify for any of the grants payable under this regulation if paragraph 9 of Part 2 of Schedule 1 is the only paragraph of Part 2 of that Schedule into which the student falls.

(3) Mae gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop hawl i gael grant at gostau byw sy'n hafal i swm (A + B) lle-

(a) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol-

- (i) mae A yn £2,233.22; a
- (ii) mae B yn £45.58 am bob wythnos, gan gynnwys wythnos pryd y mae'n ofynnol i'r myfyriwr fod yn bresennol yn y Coleg am lai na 5 diwrnod, pryd y mae'n ofynnol i'r myfyriwr fod yn bresennol yn y Coleg uwchlaw 30 wythnos a 3 diwrnod; a

(b) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd arall-

- (i) mae A yn £2,290; a
- (ii) mae B yn £47 am bob wythnos, gan gynnwys wythnos pryd y mae'n ofynnol i'r myfyriwr fod yn bresennol yn y Coleg am lai na 5 diwrnod, pryd y mae'n ofynnol i'r myfyriwr fod yn bresennol yn y Coleg uwchlaw 30 wythnos a 3 diwrnod.

(4) Mae gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop hawl i gael grant at fwrdd a llety o 6,000 ewro.

(5) Mae gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop hawl i gael grant i deithio adref am swm sy'n hafal i (A- B) lle-

A yw'r swm y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi penderfynu mai dyna gost tair siwrnai ddychwel o gyfeiriad cartref y myfyriwr i'r Coleg; a

B yw-

- (i) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol, £93; a
- (ii) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd arall, £95.

(6) Mae gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop hawl i gael grant at deithio colegol am unrhyw swm y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu mai dyna gost resymol teithio o breswylfa'r myfyriwr tra bydd yn bresennol yn y Coleg i'r Coleg.

(7) Mae gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop hawl i gael grant at deithio ar gyfer ymchwil am unrhyw swm y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu mai dyna gost resymol teithio sydd wedi'i thynnu er mwyn cwblhau cyfnodau o ymchwil a awdurdodwyd gan y Coleg yn ystod y flwyddyn academaidd y gwneir cais am gymorth mewn perthynas â hi.

24. Caniateir didynnu yn unol â Rhan 5 o'r swm sy'n daladwy mewn perthynas ag unrhyw un o'r grantiau a gyfrifir yn unol â rheoliad 23.

(3) A College of Europe student qualifies for a grant for living costs of an amount equal to the sum of (A + B) where-

(a) in respect of the current academic year-

- (i) A is £2,233.22; and
- (ii) B is £45.58 for each week, including a week during which the student is required to attend the College for less than 5 days, that the student is required to attend the College in excess of 30 weeks and 3 days; and

(b) in respect of any other academic year-

- (iii) A is £2,290; and
- (iv) B is £47 for each week, including a week during which the student is required to attend the College for less than 5 days, that the student is required to attend the College in excess of 30 weeks and 3 days.

(4) A College of Europe student qualifies for a grant for board and lodging of 6,000 euro.

(5) A College of Europe student qualifies for a grant for travel home of an amount equal to (A- B) where-

A is the amount determined by the National Assembly to be the cost of three return journeys from the student's home address to the College; and

B is-

- (i) in respect of the current academic year, £93; and
- (v) in respect of any other academic year, £95.

(6) A College of Europe student qualifies for a grant for college travel of such amount as the National Assembly determines to be the reasonable cost of travel from the student's residence whilst attending the College to the College.

(7) A College of Europe student qualifies for a grant for research travel of such amount as the National Assembly determines to be the reasonable cost of travel incurred for the purposes of completing periods of research authorised by the College during the academic year in respect of which support is being applied for.

24. A deduction may be made in accordance with Part 5 from the amount payable in respect of any of the grants calculated in accordance with regulation 23.



GRANTIAU I FYFYRWYR YN Y  
SEFYDLIAD**Grantiau at gostau byw a chostau eraill**

25.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), mae gan fyfyrwr yn y Sefydliad hawl mewn perthynas â blwyddyn academiaidd i gael y grantiau at gostau byw a chostau eraill a bennir ym mharagraffau (4) i (8) ac a gyfrifir yn unol â hwy.

(2) Nid oes gan fyfyrwr yn y Sefydliad hawl i gael yr un o'r grantiau sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 1 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyrwr yn syrthio odano.

(3) Nid oes gan fyfyrwr yn y Sefydliad hawl i gael y grant sy'n daladwy o dan baragraff (8) os un flwyddyn academiaidd neu lai yw cyfnod arferol y cwrs dynodedig y penderfynwyd bod y myfyrwr yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad ag ef

(4) Mae gan fyfyrwr yn y Sefydliad hawl i gael grant at gostau byw-

- (a) mewn perthynas â'r flwyddyn academiaidd gyfredol, o 12,760 ewro; a
- (b) mewn unrhyw achos arall, o 12,840 ewro.

(5) Mae gan fyfyrwr yn y Sefydliad hawl i gael grant i deithio adref am y swm y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu mai dyna gost resymol un siwrnai ddychwel o gyfeiriad cartref y myfyrwr i'r Sefydliad;

(6) Mae gan fyfyrwr yn y Sefydliad hawl i gael grant ar gyfer teithio colegol am y swm y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu mai dyna gost resymol teithio o breswylfa'r myfyrwr tra bydd yn bresennol yn y Sefydliad i'r Sefydliad.

(7) Mae gan fyfyrwr yn y Sefydliad hawl i gael grant at deithio ar gyfer ymchwil am y swm y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu mai dyna gost resymol teithio sydd wedi'i thynnu er mwyn cwblhau cyfnodau o ymchwil a awdurdodwyd gan y Sefydliad yn ystod y flwyddyn academiaidd y gwneir cais am gymorth mewn perthynas â hi.

(8) Mae gan fyfyrwr yn y Sefydliad hawl i gael grant at yswiriant meddygol am y swm y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu mai dyna gost resymol yswirio'r myfyrwr yn erbyn rhwymedigaeth i dalu cost triniaeth feddygol a ddarperir y tu allan i'r Deyrnas Unedig os yw cyfnod arferol y cwrs yn fwy nag un flwyddyn academiaidd.

26. Caniateir didynnu yn unol â Rhan 5 o'r swm sy'n daladwy mewn perthynas ag unrhyw un o'r grantiau a gyfrifir o dan baragraffau (4) i (7) o reoliad 25.

## GRANTS FOR INSTITUTE STUDENTS

**Grants for living and other costs.**

25.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3), an Institute student qualifies in respect of an academic year for the grants for living and other costs specified in and calculated in accordance with paragraphs (4) to (8).

(2) An Institute student does not qualify for any of the grants payable under this regulation if paragraph 9 of Part 2 of Schedule 1 is the only paragraph of Part 2 of that Schedule into which the student falls.

(3) An Institute student does not qualify for the grant payable under paragraph (8) if the ordinary duration of the designated course in connection with which the student has been determined to be an eligible student is one academic year or less.

(4) An Institute student qualifies for a grant for living costs-

- (a) in respect of the current academic year, of 12,760 euro; and
- (b) in any other case, of 12,840 euro.

(5) An Institute student qualifies for a grant for travel home of the amount determined by the National Assembly to be the reasonable cost of one return journey from the student's home address to the Institute;

(6) An Institute student qualifies for a grant for college travel of the amount determined by the National Assembly to be the reasonable cost of travel from the student's residence whilst attending the Institute to the Institute.

(7) An Institute student qualifies for a grant for research travel of the amount determined by the National Assembly to be the reasonable cost of travel incurred for the purposes of completing periods of research authorised by the Institute during the academic year in respect of which support is being applied for.

(8) An Institute student qualifies for a grant for medical insurance of the amount determined by the National Assembly to be the reasonable cost of insuring the student against liability for the cost of medical treatment provided outside the United Kingdom where the ordinary duration of the course is more than one academic year.

26. A deduction may be made in accordance with Part 5 from the amount payable in respect of any of the grants calculated under paragraphs (4) to (7) of regulation 25.

### Lwfans i fyfyrwyr anabl- amodau cymhwys

27.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop neu fyfyrwr yn y Sefydliad hawl i gael lwfans i fyfyrwyr anabl i helpu gyda'r gwariant ychwanegol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni bod rhaid i'r myfyrwr ei dynnu oherwydd anabledd sydd ganddo mewn perthynas â bod yn bresennol ar gwrs dynodedig.

(2) Nid oes gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop neu fyfyrwr yn y Sefydliad hawl i gael lwfans i fyfyrwyr anabl os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 1 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyrwr yn syrthio odano.

### Swm y lwfans i fyfyrwyr anabl

28.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), swm y lwfans i fyfyrwyr anabl yw'r swm y mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn ei fod yn briodol yn unol ag amgylchiadau'r myfyrwr.

(2) Rhaid i swm y lwfans i fyfyrwyr anabl beidio â bod yn fwy na'r canlynol-

- (a) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol-
  - (i) £11,840 mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd ar gyfer gwariant ar gynorthwydd personol anfeddygol;
  - (ii) £4,680 mewn perthynas â phob blwyddyn academaidd yn ystod y cyfnod cymhwysra ar gyfer gwariant ar eitemau pwysig o offer arbenigol;
  - (iii) unrhyw wariant ychwanegol a dynnir-
    - (aa) yn y wlad y lleolir y sefydliad perthnasol ynddi er mwyn bod yn bresennol yn y sefydliad; a
    - (bb) yn y Deyrnas Unedig neu y tu allan iddi er mwyn teithio i'r sefydliad perthnasol er mwyn bod yn bresennol ar y cwrs perthnasol;
  - (iv) £1,565 mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd am unrhyw wariant arall gan gynnwys gwariant a dynnir at y dibenion y cyfeirir atynt ym mharagraff (i) neu (ii) sy'n fwy na'r uchafsymiau a bennwyd;
- (b) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd arall-
  - (i) £12,135 mewn perthynas â blwyddyn academaidd am wariant ar gynorthwydd personol anfeddygol;
  - (ii) £4,795 mewn perthynas â phob blwyddyn academaidd yn ystod y cyfnod cymhwysra

### Disabled students' allowance- qualifying conditions

27.-(1) Subject to paragraph (2), a College of Europe student or an Institute student qualifies for a disabled students' allowance to assist with the additional expenditure which the National Assembly is satisfied that the student is obliged to incur by reason of a disability to which he or she is subject in respect of his or her attendance at a designated course.

(2) A College of Europe student or an Institute student does not qualify for a disabled students' allowance if paragraph 9 of Part 2 of Schedule 1 is the only paragraph of Part 2 of that Schedule into which the student falls.

### Amount of disabled students' allowance

28.-(1) Subject to paragraph (2), the amount of the disabled student's allowance is the amount that the National Assembly considers appropriate in accordance with the student's circumstances.

(2) The amount of disabled students' allowance must not exceed-

- (a) in respect of the current academic year-
  - (i) £11,840 in respect of the academic year for expenditure on a non-medical personal helper;
  - (ii) £4,680 in respect of all the academic years during the period of eligibility for expenditure on major items of specialist equipment;
  - (iii) any additional expenditure incurred-
    - (aa) in the country where the relevant institution is located for the purpose of attending the institution; and
    - (bb) within or outside the United Kingdom for the purpose of travelling to the relevant institution in order to attend the relevant course;
  - (iv) £1,565 in respect of the academic year for any other expenditure including expenditure incurred for the purposes referred to in paragraph (i) or (ii) which exceeds the specified maxima;
- (b) in respect of any other academic year-
  - (i) £12,135 in respect of an academic year for expenditure on a non-medical personal helper;
  - (ii) £4,795 in respect of all the academic years during the period of eligibility for

am wariant ar eitemau pwysig o offer arbenigol;

- (iii) unrhyw wariant ychwanegol a dynnir-
  - (aa) yn y wlad y lleolir y sefydliad perthnasol ynddi er mwyn bod yn bresennol yn y sefydliad; a
  - (bb) yn y Deyrnas Unedig neu y tu allan iddi er mwyn teithio i'r sefydliad perthnasol er mwyn bod yn bresennol ar y cwrs perthnasol;
- (iv) £1,605 mewn perthynas â blwyddyn academaidd am unrhyw wariant arall gan gynnwys gwariant a dynnir at y dibenion y cyfeirir atynt ym mharagraff (i) neu (ii) sy'n fwy na'r uchafsymiau a bennwyd.

### Grant ar gyfer dibynyddion

29.-(1) Mae'r grant ar gyfer dibynyddion yn cynnwys yr elfennau canlynol-

- (a) grant dibynyddion mewn oed; a
- (b) lwfans dysgu rhieni.

(2) Nodir amodau hawlio pob elfen a'r symiau sy'n daladwy yn rheoliadau 30 i 33.

### Grant dibynyddion mewn oed

30.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop neu fyfyrwr yn y Sefydliad hawl i gael grant dibynyddion mewn oed mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar gwrs dynodedig yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Mae'r grant dibynyddion mewn oed ar gael mewn perthynas â'r canlynol-

- (a) partner y myfyriwr; neu
- (b) dibynydd mewn oed i'r myfyriwr nad yw ei incwm net yn fwy na'r canlynol-
  - (i) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol, £3,345;
  - (ii) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd arall, £3,530.

(3) Nid oes gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop neu fyfyrwr yn y Sefydliad hawl i gael y grant sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 1 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyriwr yn syrthio odano.

31.-(1) Mae swm y grant dibynyddion mewn oed sy'n daladwy mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael ei gyfrifo yn unol â rheoliad 33, a'r swm sylfaenol yw-

- (a) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol, £2,395; a
- (b) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd arall-

expenditure on major items of specialist equipment;

- (iii) any additional expenditure incurred-
  - (aa) in the country where the relevant institution is located for the purpose of attending the institution; and
  - (bb) within or outside the United Kingdom for the purpose of travelling to the relevant institution in order to attend the relevant course;
- (iv) £1,605 in respect of an academic year for any other expenditure including expenditure incurred for the purposes referred to paragraph (i) or (ii) which exceeds the specified maxima.

### Grant for dependants

29.-(1) The grant for dependants consists of the following elements-

- (a) adult dependants' grant; and
- (b) parents learning allowance.

(2) The qualifying conditions for each element and the amounts payable are set out in regulations 30 to 33.

### Adult dependants' grant

30.-(1) Subject to paragraph (3), a College of Europe Student or an Institute student qualifies for an adult dependants' grant in connection with his or her attendance on a designated course in accordance with this regulation.

(2) The adult dependants' grant is available in respect of-

- (a) the student's partner; or
- (b) an adult dependant of the student whose net income does not exceed-
  - (i) in respect of the current academic year, £3,345;
  - (ii) in respect of any other academic year, £3,530.

(3) A College of Europe student or an Institute student does not qualify for the grant payable under this regulation if paragraph 9 of Part 2 of Schedule 1 is the only paragraph of Part 2 of that Schedule into which the student falls.

31.-(1) The amount of adult dependants' grant payable in respect of an academic year is calculated in accordance with regulation 33, the basic amount being-

- (a) in respect of the current academic year, £2,395; and
- (b) in respect of any other academic year-

- (i) £2,455; neu
- (ii) pan fo'r person y mae'r myfyriwr yn gwneud cais mewn perthynas ag ef am grant dibynyddion mewn oed yn preswyllo fel arfer y tu allan i'r Deyrnas Unedig, unrhyw swm nad yw'n fwy na £2,455 sydd ym marn y Cynulliad Cenedlaethol yn rhesymol yn yr amgylchiadau.

### Lwfans dysgu rhieni

32.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop neu fyfyrwr yn y Sefydliad hawl mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar gwrs dynodedig i gael y lwfans dysgu rhieni os oes ganddo un neu fwy o blant dibynnol.

(2) Nid oes gan fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop neu fyfyrwr yn y Sefydliad hawl i gael y grant sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 1 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyriwr yn syrthio odano.

(3) Mae swm y lwfans dysgu rhieni sy'n daladwy mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael ei gyfrifo yn unol â rheoliad 33, a'r swm sylfaenol yw-

- (a) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol, £1,365;
- (b) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd arall, £1,400.

### Cyfrifo

33.-(1) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau canlynol, y swm sy'n daladwy mewn perthynas ag elfen benodol o'r grant ar gyfer dibynyddion y mae gan y myfyriwr yng Ngholeg Ewrop neu'r myfyriwr yn y Sefydliad hawl i'w gael o dan reoliadau 29 i 32 yw swm yr elfen honno sy'n weddill ar ôl cymhwyso, hyd nes y daw i ben neu hyd nes nad oes elfen yn dal yn daladwy o dan reoliadau 29 i 32, swm sy'n hafal i (**A**- **B**) fel a ganlyn ac yn y drefn ganlynol-

- (a) i ostwng swm sylfaenol y grant dibynyddion mewn oed os oes gan y myfyriwr hawl i gael yr elfen honno o dan reoliad 30; a
- (b) i ostwng swm sylfaenol y lwfans dysgu rhieni os oes gan y myfyriwr hawl i gael yr elfen honno o dan reoliad 32.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), os yw **B** yn fwy na neu'n hafal i **A**, mae swm sylfaenol pob elfen o'r grant ar gyfer dibynyddion y mae gan y myfyriwr hawl i'w chael yn daladwy.

(3) Os yw (**A**- **B**) yn hafal i neu'n fwy na chyfanswm symiau sylfaenol elfennau'r grant ar gyfer dibynyddion y mae gan y myfyriwr cymwys hawl i'w gael, y swm sy'n daladwy mewn perthynas â phob elfen yw dim.

(4) Mae swm y grant dibynyddion mewn oed a

- (i) £2,455; or
- (ii) where the person in respect of whom the student is applying for adult dependants' grant is ordinarily resident outside of the United Kingdom, such amount not exceeding £2,455 as the National Assembly considers reasonable in the circumstances.

### Parents' learning allowance

32.-(1) Subject to paragraph (2), a College of Europe student or an Institute student qualifies in connection with his or her attendance on a designated course for the parents' learning allowance if he or she has one or more dependent children.

(2) A College of Europe student or an Institute student does not qualify for the grant payable under this regulation if paragraph 9 of Part 2 of Schedule 1 is the only paragraph of Part 2 of that Schedule into which the student falls.

(3) The amount of parents' learning allowance payable in respect of an academic year is calculated in accordance with regulation 33, the basic amount being-

- (a) in respect of the current academic year, £1,365;
- (b) in respect of any other academic year, £1,400.

### Calculations

33.-(1) Subject to the following paragraphs, the amount payable in respect of a particular element of the grant for dependants for which the College of Europe student or Institute student qualifies under regulations 29 to 32 is the amount of that element remaining after applying, until it is extinguished or no element remains payable under regulations 29 to 32, an amount equal to (**A**- **B**) as follows and in the following order-

- (a) to reduce the basic amount of the adult dependants' grant where the student qualifies for that element under regulation 30; and
- (b) to reduce the basic amount of parents' learning allowance where the student qualifies for that element under regulation 32.

(2) Subject to paragraphs (4) and (5), where **B** is greater than or equal to **A**, the basic amount of each element of the grant for dependants for which the student qualifies is payable.

(3) Where (**A**- **B**) is equal to or exceeds the aggregate of the basic amounts of the elements of the grant for dependants for which the eligible student qualifies, the amount payable in respect of each element is nil.

(4) The amount of adult dependants' grant calculated

gyfrifir o dan baragraff (1) yn cael ei ostwng o hanner-

- (a) os yw partner y myfyriwr-
  - (i) yn fyfyriwr cymwys; neu
  - (ii) yn dal dyfarniad statudol; a
- (b) os cymerir dibynyddion y partner hwnnw i ystyriaeth wrth gyfrifo swm y cymorth y mae gan y partner hwnnw hawl i'w gael neu'r taliad y mae ganddo hawlogaeth i'w gael o dan y dyfarniad statudol.

(5) Os yw swm y lwfans dysgu rhieni a gyfrifir o dan baragraff (1) yn £0.01 neu fwy ond yn llai na £50, swm y lwfans dysgu rhieni sy'n daladwy yw £50.

- (6) At ddibenion y rheoliad hwn-
  - (a) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol-

**A** yw cyfanswm incwm net pob un o ddibynyddion y myfyriwr cymwys; a

**B** yw £1,050 os nad oes gan y myfyriwr blentyn dibynnol;

£3,145 os nad yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo un plentyn dibynnol;

£4,195 os nad yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo fwy nag un plentyn dibynnol;

£4,195 os yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo un plentyn dibynnol;

£5,250 os yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo fwy nag un plentyn dibynnol;

- (b) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd arall-

**A** yw cyfanswm incwm net pob un o ddibynyddion y myfyriwr cymwys; a

**B** yw £1,075 os nad oes gan y myfyriwr blentyn dibynnol;

£3,225 os nad yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo un plentyn dibynnol;

£4,300 os nad yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo fwy nag un plentyn dibynnol;

£4,300 os yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo un plentyn dibynnol;

£5,380 os yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo fwy nag un plentyn dibynnol.

**34.** Caniateir didynnu yn unol â Rhan 5 o'r swm sy'n daladwy mewn perthynas ag elfen benodol yn y grant ar gyfer dibynyddion a gyfrifir yn unol â rheoliadau 30 i 33.

under paragraph (1) is reduced by one half where-

- (a) the student's partner-
  - (i) is an eligible student; or
  - (ii) holds a statutory award; and
- (b) account is taken of that partner's dependants in calculating the amount of support for which that partner qualifies or the payment to which he or she is entitled under the statutory award.

(5) Where the amount of the parents' learning allowance calculated under paragraph (1) is £0.01 or more but less than £50, the amount of parents' learning allowance payable is £50.

- (6) For the purposes of this regulation-
  - (a) in respect of the current academic year-

**A** is the aggregate of the net income of each of the eligible student's dependants; and

**B** is £1,050 where the student has no dependent children;

£3,145 where the student is not a lone parent and has one dependent child;

£4,195 where the student is not a lone parent and has more than one dependent child;

£4,195 where the student is a lone parent and has one dependent child;

£5,250 where the student is a lone parent and has more than one dependent child;

- (b) in respect of any other academic year-

**A** is the aggregate of the net income of each of the eligible student's dependants; and

**B** is £1,075 where the student has no dependent children;

£3,225 where the student is not a lone parent and has one dependent child;

£4,300 where the student is not a lone parent and has more than one dependent child;

£4,300 where the student is a lone parent and has one dependent child;

£5,380 where the student is a lone parent and has more than one dependent child.

**34.** A deduction may be made in accordance with Part 5 from the amount payable in respect of a particular element of the grant for dependants calculated in accordance with regulations 30 to 33.

## Dehongli

35.-(1) At ddibenion rheoliadau 30 i 33-

- (a) ystyr "dibynnydd mewn oed" ("*adult dependant*"), mewn perthynas â myfyriwr, yw person mewn oed sy'n dibynnu ar y myfyriwr heblaw plentyn y myfyriwr, partner y myfyriwr (gan gynnwys priod neu bartner sifil y mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn bod y myfyriwr wedi gwahanu oddi wrtho) neu gynbartner y myfyriwr;
- (b) mae "plentyn" ("*child*") mewn perthynas â myfyriwr yn cynnwys unrhyw blentyn i bartner y myfyriwr sy'n ddibynnol ar y myfyriwr ac unrhyw blentyn y mae gan y myfyriwr gyfrifoldeb rhiant drosto sy'n ddibynnol arno;
- (c) ystyr "dibynnydd" ("*dependant*"), mewn perthynas â myfyriwr, yw partner y myfyriwr, plentyn dibynnol y myfyriwr neu ddibynnydd mewn oed i'r myfyriwr, nad yw ym mhob achos yn fyfyriwr cymwys ac nad oes ganddo ddyfarniad statudol;
- (ch) ystyr "dibynnol" ("*dependent*") yw ariannol ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf;
- (d) ystyr "rhiant unigol" ("*lone parent*") yw myfyriwr nad oes ganddo bartner ac sydd â phlentyn dibynnol neu blant dibynnol;
- (dd) mae i "incwm net" ("*net income*") yr ystyr a roddir ym mharagraff (2);
- (e) yn ddarostyngedig i is-baragraffau (f), (ff) ac (g), ystyr "partner" ("*partner*") yw unrhyw un o'r canlynol-
  - (i) priod myfyriwr;
  - (ii) partner sifil myfyriwr;
  - (iii) person sydd fel arfer yn byw gyda myfyriwr fel pe bai'r person hwnnw'n briod i'r myfyriwr-
    - (aa) os oedd y myfyriwr hwnnw yn 25 oed neu drosodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraniad y myfyriwr i fod i gael ei asesu mewn perthynas â hi;  
a
    - (bb) os dechreuodd y myfyriwr hwnnw y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2000;
  - (iv) person sydd fel arfer yn byw gyda myfyriwr fel pe bai'r person hwnnw'n bartner sifil i'r myfyriwr-
    - (aa) os oedd y myfyriwr hwnnw yn 25 oed neu drosodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraniad y myfyriwr i fod i gael ei asesu mewn perthynas â hi;  
a
    - (bb) os dechreuodd y myfyriwr hwnnw y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2005;
- (f) oni nodir fel arall, nid yw person a fyddai fel

## Interpretation

35.-(1) For the purposes of regulations 30 to 33-

- (a) "adult dependant" ("*dibynnydd mewn oed*") means, in relation to a student, an adult person dependent on the student other than his or her child, his or her partner (including a spouse or civil partner from whom the National Assembly considers the student is separated) or his or her former partner;
- (b) "child" ("*plentyn*") in relation to a student includes any child of the student's partner who is dependent on the student and any child for whom the student has parental responsibility who is dependent on him or her;
- (c) "dependant" ("*dibynnydd*") means, in relation to a student, the student's partner, his or her dependent child or an adult dependant, who in each case is not an eligible student and does not hold a statutory award;
- (d) "dependent" ("*dibynnol*") means wholly or mainly financially dependent;
- (e) "lone parent" ("*rhiant unigol*") means a student who does not have a partner and who has a dependent child or dependent children;
- (f) "net income" ("*incwm net*") has the meaning given in paragraph (2);
- (g) subject to sub-paragraphs (h), (i) and (j), "partner" ("*partner*") means any of the following-
  - (i) the spouse of a student;
  - (ii) the civil partner of a student;
  - (iii) a person ordinarily living with a student as if that person were his or her spouse where that student-
    - (aa) was aged 25 or over at the start of the academic year in respect of which the student's contribution falls to be assessed; and
    - (bb) started the designated course on or after 1 September 2000;
  - (iv) a person ordinarily living with a student as if that person were his or her civil partner where that student-
    - (aa) was aged 25 or over at the start of the academic year in respect of which the student's contribution falls to be assessed; and
    - (bb) started the designated course on or after 1 September 2005;
- (h) unless otherwise indicated, a person who

arall yn bartner o dan is-baragraff (e) i'w drin fel partner-

- (i) os yw'r person hwnnw a'r myfyriwr, ym marn y Cynulliad Cenedlaethol, wedi'u gwahanu; neu
  - (ii) os yw'r person yn byw fel arfer y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac nad yw'n cael ei gynnal gan y myfyriwr;
- (ff) at ddibenion diffinio "dibynnydd mewn oed", mae person i'w drin fel partner pe bai'r person yn bartner o dan is-baragraff (e) oni bai am y ffaith nad oedd y myfyriwr y mae'r person yn byw gydag ef yn 25 oed neu drosodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraniad y myfyriwr i fod i gael ei asesu mewn perthynas â hi;
- (g) at ddibenion diffinio "plentyn" a "rhiant unigol", mae person i'w drin fel partner pe bai'r person yn bartner o dan is-baragraff (e) oni bai am y dyddiad y dechreuodd y myfyriwr y cwrs dynodedig neu'r ffaith nad oedd y myfyriwr y mae'r person fel arfer yn byw gydag ef yn 25 oed neu drosodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraniad y myfyriwr i fod i gael ei asesu mewn perthynas â hi.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), incwm net dibynnydd yw incwm y dibynnydd o bob ffynhonnell am y flwyddyn academaidd o dan sylw wedi'i ostwng yn ôl swm y dreth incwm a'r cyfraniadau nawdd cymdeithasol sy'n daladwy mewn perthynas â hi ond gan anwybyddu-

- (a) unrhyw bensiwn, lwfans neu fudd-dal arall a delir oherwydd anabled neu analluedd sydd gan y dibynnydd;
- (b) budd-dal plant sy'n daladwy o dan Ran IX o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(1);
- (c) unrhyw gymorth ariannol sy'n daladwy i'r dibynnydd gan awdurdod lleol yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adrannau 2, 3 a 4 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(2);
- (ch) unrhyw lwfans gwarcheidwad y mae gan y dibynnydd hawlogaeth i'w gael o dan adran 77 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992;
- (d) yn achos dibynnydd y mae plentyn sy'n derbyn gofal awdurdod lleol wedi'i fyrddio gydag ef, unrhyw daliad a wneir i'r dibynnydd hwnnw at ddibenion adran 23 o Ddeddf Plant 1989(3);

would otherwise be a partner under sub-paragraph (g) is not to be treated as a partner if-

- (i) in the opinion of the National Assembly, that person and the student are separated; or
  - (ii) the person is ordinarily living outside the United Kingdom and is not maintained by the student;
- (i) for the purposes of the definition of "adult dependant", a person is to be treated as a partner if the person would be a partner under sub-paragraph (g) but for the fact that the student with whom he or she is living was not aged 25 or over at the start of the academic year in respect of which the student's contribution falls to be assessed;
- (j) for the purposes of the definitions of "child" and "lone parent", a person is to be treated as a partner if the person would be a partner under sub-paragraph (g) but for the date on which the student began the designated course or the fact that the student with whom he or she is ordinarily resident was not aged 25 or over at the start of the academic year in respect of which the student's contribution falls to be assessed.

(2) Subject to paragraph (3), a dependant's net income is his or her income from all sources for the academic year in question reduced by the amount of income tax and social security contributions payable in respect of it but disregarding-

- (a) any pension, allowance or other benefit paid by reason of a disability or incapacity to which the dependant is subject;
- (b) child benefit payable under Part IX of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992(1);
- (c) any financial support payable to the dependant by a local authority in accordance with regulations made under sections 2, 3 and 4 of the Adoption and Children Act 2002(2);
- (d) any guardian's allowance to which the dependant is entitled under section 77 of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992;
- (e) in the case of a dependant with whom a child being looked after by a local authority is boarded out, any payment made to that dependant for the purposes of section 23 of the Children Act 1989(3);

---

(1) 1992 p. 4.

(2) 2002 p. 38.

(3) 1989 p. 41. Diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf Plant 2004 (p. 31), adran 49(3).

---

(1) 1992 c. 4.

(2) 2002 c. 38.

(3) 1989 c. 41. Section 23 was amended by the Children Act 2004 (c. 31), section 49(3).

- (dd) unrhyw daliadau a wneir i'r dibynnydd o dan adran 15 o Ddeddf Plant 1989 ac Atodlen 1 iddi mewn perthynas â pherson nad yw'n blentyn i'r dibynnydd neu unrhyw gymorth a roddir gan awdurdod lleol yn unol ag adran 24 o'r Ddeddf honno; ac
- (e) unrhyw gredyd treth plant y mae gan y dibynnydd hawlogaeth i'w gael o dan Ran I o Ddeddf Credydau Treth 2002.

(3) Os yw myfyriwr neu bartner y myfyriwr yn gwneud unrhyw daliadau ailgylchol a oedd gynt yn cael eu gwneud gan y myfyriwr yn unol â rhwymedigaeth a ysgwyddwyd cyn blwyddyn academaidd gyntaf cwrs y myfyriwr, incwm net y partner yw'r incwm net wedi'i gyfrifo yn unol â pharagraff (2) wedi'i ostwng yn ôl-

- (a) swm sy'n hafal i'r taliadau o dan sylw am y flwyddyn academaidd, os cafodd y rhwymedigaeth, ym marn y Cynulliad Cenedlaethol, ei hysgwyddo'n rhesymol; neu
- (b) unrhyw swm llai, os bydd unrhyw swm o gwbl, sy'n briodol ym marn y Cynulliad Cenedlaethol pe gallai rhwymedigaeth lai fod wedi'i hysgwyddo'n rhesymol, ym marn y Cynulliad Cenedlaethol.

(4) At ddibenion paragraff (2)-

- (a) os yw'r dibynnydd yn blentyn dibynnol;
- (b) os yw'r flwyddyn academaidd berthnasol yn flwyddyn academaidd newydd; ac
- (c) os oes taliadau'n cael eu gwneud i'r myfyriwr tuag at gynhaliaeth y plentyn;

mae'r taliadau hynny i gael eu trin fel incwm i'r plentyn.

- (f) any payments made to the dependant under section 15 of and Schedule 1 to the Children Act 1989 in respect of a person who is not the dependant's child or any assistance given by a local authority pursuant to section 24 of that Act; and
- (g) any child tax credit to which the dependant is entitled under Part 1 of the Tax Credits Act 2002.

(3) Where a student or his or her partner makes any recurrent payments which were previously made by the student in pursuance of an obligation incurred before the first academic year of the student's course, the partner's net income is net income calculated in accordance with paragraph (2) reduced by-

- (a) an amount equal to the payments in question for the academic year, if in the opinion of the National Assembly the obligation has been reasonably incurred; or
- (b) such lesser amount, if any, as the National Assembly considers appropriate if, in its opinion, a lesser obligation could reasonably have been incurred.

(4) For the purposes of paragraph (2), where-

- (a) the dependant is a dependent child;
- (b) the relevant academic year is a new academic year; and
- (c) payments are made to the student towards the child's maintenance;

those payments are to be treated as the child's income.

## RHAN 5

### CYFRANIADAU

#### Cyfraniad y myfyriwr

36.-(1) Cyfraniad myfyriwr yng Ngholeg Ewrop neu fyfyriwr yn y Sefydliad mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw'r swm a gyfrifir o dan Atodlen 2, os oes unrhyw swm o gwbl.

(2) At ddibenion arfer swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol o dan y Rheoliadau hyn, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr roi o dro i dro unrhyw wybodaeth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn amdani er mwyn asesu cyfraniad y myfyriwr.

## PART 5

### CONTRIBUTIONS

#### Student's contribution

36.-(1) A College of Europe student or Institute student's contribution in respect of an academic year is the amount, if any, calculated under Schedule 2.

(2) For the purposes of the exercise of the National Assembly's functions under these Regulations the Assembly may require a student to provide from time to time such information as it requires in order to assess the student's contribution.



## Cymhwyso cyfraniad y myfyriwr

37.-(1) Rhaid i'r cyfraniad a gyfrifir yn unol â rheoliad 36 gael ei gymhwyso-

- (a) yn achos myfyriwr yng Ngholeg Ewrop yn unol â rheoliad 38; a
- (b) yn achos myfyriwr yn y Sefydliad yn unol â rheoliad 39.

38.-(1) Yn achos myfyriwr yng Ngholeg Ewrop, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymhwyso cyfraniad y myfyriwr-

- (a) yn gyntaf, i ostwng swm y grant at gostau byw a gyfrifir o dan reoliad 23(3);
- (b) yn ail-
  - (i) yn achos myfyriwr sy'n gymwys i gael y grant ar gyfer dibynyddion, i ostwng-
    - (aa) yn gyntaf, swm y grant ar gyfer dibynyddion a gyfrifir yn unol â rheoliad 33; a
    - (bb) yn ail, swm y grant ar gyfer bwrdd a llety a gyfrifir yn unol â rheoliad 23(4);
  - (ii) mewn unrhyw achos arall, swm y grant at fwrdd a llety a gyfrifir o dan reoliad 23(4);
- (c) yn drydydd, i ostwng swm y grant ar gyfer teithio adref a gyfrifir yn unol â rheoliad 23(5);
- (ch) yn bedwerydd, i ostwng swm y grant at deithio colegol a gyfrifir yn unol â rheoliad 23(6);
- (d) yn bumod, yn ddarostyngedig i baragraff (2), i ostwng swm y grant ar gyfer teithio i ymchwilio a gyfrifir yn unol â rheoliad 23(7).

(2) Os yw'r cyfraniad sydd ar gael i ostwng swm y grant ar gyfer teithio i ymchwilio yn unol â pharagraff (1)(d) yn fwy na swm y grant hwnnw a gyfrifir o dan reoliad 23(7), swm y grant hwnnw sy'n daladwy i'r myfyriwr yw dim.

39.-(1) Yn achos myfyriwr yn y Sefydliad, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymhwyso cyfraniad y myfyriwr-

- (a) yn gyntaf, i ostwng swm y grant at gostau byw a gyfrifir yn unol â rheoliad 25(4);
- (b) yn ail-
  - (i) yn achos myfyriwr sy'n gymwys i gael y grant ar gyfer dibynyddion, i ostwng-
    - (aa) yn gyntaf, swm y grant ar gyfer dibynyddion a gyfrifir yn unol â rheoliad 33;
    - (bb) yn ail, swm y grant ar gyfer teithio adref a gyfrifir yn unol â rheoliad 25(5); ac

## Application of the student's contribution

37.-(1) The contribution calculated in accordance with regulation 36 must be applied-

- (a) in the case of a College of Europe student in accordance with regulation 38; and
- (b) in the case of an Institute student in accordance with regulation 39.

38.-(1) In the case of a College of Europe student, the National Assembly must apply the student's contribution-

- (a) first, to reduce the amount of grant for living costs calculated under regulation 23(3);
- (b) second-
  - (i) in the case of a student who is eligible for the grant for dependants, to reduce-
    - (aa) first, the amount of grant for dependants calculated in accordance with regulation 33; and
    - (bb) second, the amount of grant for board and lodging calculated in accordance with regulation 23(4);
  - (ii) in any other case, the amount of grant for board and lodging calculated under regulation 23(4);
- (c) third, to reduce the amount of grant for travel home calculated in accordance with regulation 23(5);
- (d) fourth, to reduce the amount of grant for college travel calculated in accordance with regulation 23(6);
- (e) fifth, subject to paragraph (2), to reduce the amount of grant for research travel calculated in accordance with regulation 23(7).

(2) Where the contribution available to reduce the amount of grant for research travel in accordance with paragraph (1)(e) exceeds the amount of that grant calculated under regulation 23(7), the amount of that grant payable to the student is nil.

39.-(1) In the case of an Institute student, the National Assembly must apply the student's contribution-

- (a) first, to reduce the amount of grant for living costs calculated in accordance with regulation 25(4);
- (b) second-
  - (i) in the case of a student who is eligible for the grant for dependants, to reduce-
    - (aa) first, the amount of grant for dependants calculated in accordance with regulation 33;
    - (bb) second, the amount of grant for travel home calculated in accordance with regulation 25(5); and

(cc) yn drydydd, swm y grant ar gyfer teithio colegol a gyfrifir yn unol â rheoliad 25(6);

(ii) mewn unrhyw achos arall, i ostwng swm y grant ar gyfer teithio colegol a gyfrifir yn unol â rheoliad 25(6);

(c) yn drydydd, yn ddarostyngedig i baragraff (2), i ostwng swm y grant ar gyfer teithio i ymchwilio a gyfrifir yn unol â rheoliad 25(7).

(2) Os yw'r cyfraniad sydd ar gael i ostwng swm y grant ar gyfer teithio i ymchwilio yn unol â pharagraff (1)(c) yn fwy na swm y grant hwnnw a gyfrifir o dan reoliad 26(7), swm y grant hwnnw sy'n daladwy i'r myfyriwr yw dim.

(cc) third, the amount of grant for college travel calculated in accordance with regulation 25(6);

(ii) in any other case, to reduce the amount of grant for college travel calculated in accordance with regulation 25(6);

(c) third, subject to paragraph (2), to reduce the amount of grant for research travel calculated in accordance with regulation 25(7).

(2) Where the contribution available to reduce the amount of grant for research travel in accordance with paragraph (1)(c) exceeds the amount of that grant calculated under regulation 26(7), the amount of that grant payable to the student is nil.

## RHAN 6

### TALIADAU

#### Talu grant at ffioedd

**40.**-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol beidio â thalu'r grant at ffioedd y mae gan fyfyrwr hawl i'w gael nes ei fod wedi cael cais dilys am y taliad oddi wrth yr awdurdod academaidd.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud taliadau'r grant at ffioedd i'r awdurdod academaidd mewn unrhyw randaliadau ac ar unrhyw adegau y mae'n credu eu bod yn briodol.

#### Talu grantiau at gostau byw a chostau eraill a grantiau atodol

**41.**-(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol dalu'r grantiau at gostau byw a chostau eraill a'r grantiau atodol y mae gan fyfyrwr hawl i'w cael mewn unrhyw randaliadau ac ar unrhyw adegau y mae'n credu eu bod yn briodol.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, os yw'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny, dalu'r grant sy'n daladwy o dan reoliad 23(4) neu reoliad 25(4) i'r awdurdod academaidd perthnasol er mwyn i'r awdurdod dalu'r grant perthnasol ar ran y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Os na all asesiad terfynol o swm y grantiau at gostau byw a chostau eraill neu'r grantiau atodol sy'n daladwy i fyfyrwr gael ei wneud ar sail yr wybodaeth a roddwyd gan y myfyriwr, caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud taliadau dros dro o'r grantiau hynny hyd nes y ceir yr asesiad terfynol.

(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, os yw'n credu bod hynny'n briodol, wneud taliad o lwfans i fyfyrwr anabl cyn dechrau'r flwyddyn academaidd y mae'r taliad hwnnw'n ddyledus mewn perthynas â hi.

## PART 6

### PAYMENTS

#### Payment of grant for fees

**40.**-(1) The National Assembly must not pay the grant for fees for which a student qualifies until it has received a valid request for payment from the academic authority.

(2) The National Assembly may make the payments of the grant for fees to the academic authority in such instalments and at such times as it considers to be appropriate.

#### Payment of grants for living and other costs and supplementary grants

**41.**-(1) The National Assembly may pay the grants for living and other costs and the supplementary grants for which a student qualifies in such instalments and at such times as it considers appropriate.

(2) The National Assembly may, if it considers it appropriate to do so, pay the grant payable under regulation 23(4) or regulation 25(4) to the relevant academic authority for the authority to pay the relevant grant on its behalf.

(3) Where a final assessment of the amount of grants for living and other costs or supplementary grants payable to a student cannot be made on the basis of the information provided by the student, the National Assembly may make provisional payments of those grants pending the final assessment.

(4) The National Assembly may, if its considers it appropriate to do so, make a payment of disabled students' allowance before the start of the academic year in respect of which that payment is due.

(5) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol beidio â gwneud taliadau cymorth i fyfyrwr sydd wedi tynnu'n ôl o'r cwrs, wedi rhoi'r gorau iddo neu wedi'i ddiarddel oddi arno ar ôl y dyddiad y mae'r myfyriwr yn tynnu'n ôl o'r cwrs, yn rhoi'r gorau iddo neu'n cael ei ddiarddel oddi arno oni bai bod y Cynulliad Cenedlaethol yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny gan gymryd amgylchiadau achos y myfyriwr i ystyriaeth.

(6) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol beidio â gwneud taliadau cymorth i fyfyrwr sy'n absennol o'r cwrs-

- (a) am fwy na 60 diwrnod oherwydd salwch; neu
- (b) am unrhyw gyfnod am unrhyw reswm arall,

oni bai bod y Cynulliad Cenedlaethol yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny gan gymryd amgylchiadau achos y myfyriwr i ystyriaeth.

### **Gordalu**

**42.**-(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill unrhyw ordaliad grant at ffioedd oddi wrth yr awdurdod academiaidd.

(2) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn iddo, rhaid i fyfyrwr cymwys ad-dalu unrhyw swm a dalwyd i'r myfyriwr hwnnw o dan Ran 4 sydd am ba reswm bynnag yn fwy na swm y cymorth y mae gan y myfyriwr hawlogaeth i'w gael o dan Ran 4.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

5 Gorffennaf 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(5) The National Assembly must not make any payments of support to a student who has withdrawn from, abandoned or been expelled from the course after the date on which the student withdraws from, abandons or is expelled from the course unless it considers it appropriate to do so taking into account the circumstances of the student's case.

(6) The National Assembly must not make any payments of support to a student who is absent from the course-

- (a) for more than 60 days due to illness; or
- (b) for any period for any other reason,

unless it considers that it is appropriate to do so taking into account the circumstances of the student's case.

### **Overpayments**

**42.**-(1) The National Assembly may recover any overpayment of grant for fees from the academic authority.

(2) An eligible student must, if required to do so by the National Assembly, repay any amount paid to that student under Part 4 which for whatever reason exceeds the amount of support to which he or she is entitled under Part 4.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

5 July 2006

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

## MYFYRWYR CYMWYS

## ELIGIBLE STUDENTS

## RHAN 1

## PART 1

## Dehongli

1.-(1) At ddibenion yr Atodlen hon-

oni nodir fel arall, ystyr "aelod o'r teulu" ("*family member*") yw-

- (a) mewn perthynas â gweithiwr ffin yr EEA, gweithiwr mudol o'r EEA, person hunangyflogedig ffin yr EEA neu berson hunangyflogedig o'r EEA-
  - (i) ei briod neu ei bartner sifil;
  - (ii) ei blentyn ef neu blentyn ei briod neu ei bartner sifil; neu
  - (iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn ei linach esgynnol ef neu yn llinach esgynnol ei briod neu ei bartner sifil;
- (b) mewn perthynas â pherson cyflogedig o'r Swistir, person cyflogedig ffin y Swistir, person hunangyflogedig ffin y Swistir neu berson hunangyflogedig o'r Swistir-
  - (i) ei briod neu ei bartner sifil; neu
  - (ii) ei blentyn ef neu blentyn ei briod neu ei bartner sifil;
- (c) mewn perthynas â gwladolyn o'r GE nad yw'n hunangynhaliol-
  - (i) ei briod neu ei bartner sifil; neu
  - (ii) disgynyddion uniongyrchol iddo ef neu i'w briod neu ei bartner sifil sydd-
    - (aa) o dan 21 oed;
    - (bb) yn ddibynyddion iddo ef neu i'w briod neu ei bartner sifil;
- (ch) mewn perthynas â gwladolyn o'r GE sy'n hunangynhaliol-
  - (i) ei briod neu ei bartner sifil;
  - (ii) disgynyddion uniongyrchol iddo ef neu i'w briod neu ei bartner sifil sydd-
    - (aa) o dan 21 oed; neu
    - (bb) yn ddibynyddion iddo ef neu i'w briod neu ei bartner sifil;
  - (iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn ei linach esgynnol ef neu yn llinach esgynnol ei briod neu ei bartner sifil;

## Interpretation

1.-(1) For the purposes of this Schedule-

"Directive 2004/38" ("*Cyfarwyddeb 2004/38*") means Directive 2004/38/EC of the European Parliament and of the Council of 29 April 2004 on the rights of citizens of the Union and their family members to move and reside freely in the territory of the Member States;

"EC national" ("*gwladolyn o'r GE*") means a national of a Member State of the European Community;

"EEA frontier self-employed person" ("*person hunangyflogedig ffin yr EEA*") has the meaning given by sub-paragraph (2);

"EEA frontier worker" ("*gweithiwr ffin yr EEA*") has the meaning given by sub-paragraph (3);

"EEA migrant worker" ("*gweithiwr mudol o'r EEA*") means an EEA national who is or, in the case of an EEA national who applies for support after the moving date, was a worker, other than an EEA frontier worker, in the United Kingdom;

"EEA national" ("*gwladolyn o'r EEA*") means a national of an EEA State other than the United Kingdom;

"EEA self-employed person" ("*person hunangyflogedig o'r EEA*") means an EEA national who is or, in the case of an EEA national who has applied for support after the moving date, was a self-employed person, other than an EEA frontier self-employed person, in the United Kingdom;

"EEA State" ("*Gwladwriaeth EEA*") means a Member State of the European Economic Area;

"employed person" ("*person cyflogedig*") means an employed person within the meaning of Annex 1 to the Switzerland Agreement;

unless otherwise indicated, "family member" ("*aelod o'r teulu*") means-

- (a) in relation to an EEA frontier worker, an EEA migrant worker, an EEA frontier self-employed person or an EEA self-employed

(d) mewn perthynas â gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, at ddibenion paragraff 9-

- (i) ei briod neu ei bartner sifil; neu
- (ii) disgynyddion uniongyrchol iddo ef neu i'w briod neu ei bartner sifil sydd-
  - (aa) o dan 21 oed; neu
  - (bb) yn ddibynyddion iddo ef neu i'w briod neu ei bartner sifil;

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/38" ("*Directive 2004/38*") yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 29 Ebrill 2004 ar hawliau dinasyddion yr Undeb ac aelodau eu teuluoedd i symud a phreswyllo'n rhydd yn nhiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau;

ystyr "gweithiwr" ("*worker*") yw gweithiwr o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr EEA, yn ôl fel y digwydd;

mae i "gweithiwr ffin yr EEA" ("*EEA frontier worker*") yr ystyr a roddir gan is-baragraff (3);

ystyr "gweithiwr mudol o'r EEA" ("*EEA migrant worker*") yw gwladolyn o'r EEA sydd neu, yn achos gwladolyn o'r EEA sy'n gwneud cais am gymorth ar ôl y dyddiad symud, a oedd yn weithiwr, heblaw gweithiwr ffin yr EEA, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "gwladolyn o'r Deyrnas Unedig" ("*United Kingdom national*") yw person sydd i'w drin fel un o wladolion y Deyrnas Unedig at ddibenion Cytuniadau'r Gymuned;

ystyr "gwladolyn o'r EEA" ("*EEA national*") yw gwladolyn o un o Aelod-wladwriaethau'r EEA heblaw'r Deyrnas Unedig;

ystyr "gwladolyn o'r GE" ("*EC national*") yw gwladolyn o un o Aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd;

ystyr "Gwladwriaeth EEA" ("*EEA State*") yw Aelod-wladwriaeth yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd;

ystyr "hawl i breswyllo'n barhaol" ("*right of permanent residence*") yw hawl sy'n codi o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad;

ystyr "person â chaniatâd i ddod i mewn neu aros" ("*person with leave to enter or remain*") yw person sydd-

- (a) wedi cael gwybod gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref y credir ei bod yn gywir caniatáu iddo ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros yno, er na fernir bod y person yn gymwys i'w gydnabod fel ffoadur;
- (b) wedi cael caniatâd i ddod i mewn neu aros yn unol â hyn; ac

person-

- (i) his or her spouse or civil partner;
  - (ii) his or her child or the child of his or her spouse or civil partner; or
  - (iii) dependent direct relatives in his or her ascending line or that of his or her spouse or civil partner;
- (b) in relation to a Swiss employed person, a Swiss frontier employed person, a Swiss frontier self-employed person or a Swiss self-employed person-
- (i) his or her spouse or civil partner; or
  - (ii) his or her child or the child of his or her spouse or civil partner;
- (c) in relation to an EC national who is not self-sufficient-
- (i) his or her spouse or civil partner; or
  - (ii) direct descendants of his or her or of his or her spouse or civil partner who are-
    - (aa) under the age of 21;
    - (bb) dependants of his or her or of his or her spouse or civil partner;
- (d) in relation to an EC national who is self-sufficient-
- (i) his or her spouse or civil partner;
  - (ii) direct descendants of his or her or of his or her spouse or civil partner who are-
    - (aa) under the age of 21; or
    - (bb) dependants of his or her or of his or her spouse or civil partner;
  - (iii) dependent direct relatives in his or her ascending line or that of his or her spouse or civil partner;
- (e) in relation to a United Kingdom national, for the purposes of paragraph 9-
- (i) his or her spouse or civil partner; or
  - (ii) direct descendants of his or her or of his or her spouse or civil partner who are-
    - (aa) under the age of 21; or
    - (bb) dependants of his or her or of his or her spouse or civil partner;

"person with leave to enter or remain" ("*person â chaniatâd i ddod i mewn neu aros*") means a person who-

- (a) has been informed by a person acting under the authority of the Secretary of State for the Home Department that, although the person is considered not to qualify for recognition as a refugee, it is thought right to allow him or her to enter or remain in the United Kingdom;
- (b) has been granted leave to enter or to remain accordingly; and

(c) wedi bod yn preswyllo fel arfer yn Ynysoedd Prydain drwy gydol y cyfnod ers cael caniatâd i ddod i mewn neu aros;

ystyr "person cyflogedig" ("*employed person*") yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

mae i "person cyflogedig ffin y Swistir" ("*Swiss frontier employed person*") yr ystyr a roddir yn is-baragraff (4);

ystyr "person cyflogedig o'r Swistir" ("*Swiss employed person*") yw gwladolyn o'r Swistir sydd neu, yn achos person sy'n gwneud cais am gymorth ar ôl y dyddiad symud, a oedd yn berson cyflogedig, heblaw person cyflogedig ffin y Swistir, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person hunangyflogedig" ("*self-employed person*") yw-

(a) mewn perthynas â gwladolyn o'r EEA, person sy'n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr EEA, yn ôl fel y digwydd; neu

(b) mewn perthynas â gwladolyn o'r Swistir, person sy'n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

mae i "person hunangyflogedig ffin yr EEA" ("*EEA frontier self-employed person*") yr ystyr a roddir gan is-baragraff (2);

mae i "person hunangyflogedig ffin y Swistir" ("*Swiss frontier self-employed person*") yr ystyr a roddir yn is-baragraff (5);

ystyr "person hunangyflogedig o'r EEA" ("*EEA self-employed person*") yw gwladolyn o'r EEA sydd neu, yn achos gwladolyn o'r EEA sydd wedi gwneud cais am gymorth ar ôl y dyddiad symud, a oedd yn berson hunangyflogedig, heblaw person hunangyflogedig ffin yr EEA, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person hunangyflogedig o'r Swistir" ("*Swiss self-employed person*") yw gwladolyn o'r Swistir sydd neu, yn achos person sy'n gwneud cais am gymorth ar ôl y dyddiad symud, a oedd yn berson hunangyflogedig, heblaw person hunangyflogedig ffin y Swistir, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "hunangynhaliol" ("*self-sufficient*") yw hunangynhaliol o fewn ystyr Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38;

mae i "wedi setlo" yr ystyr a roddir i "settled" gan adran 33(2A) o Ddeddf Mewnffudo 1971(1).

(c) has been ordinarily resident in the British Islands throughout the period since he or she was granted leave to enter or remain;

"right of permanent residence" ("*hawl i breswyllo'n barhaol*") means a right arising under Directive 2004/38 to reside in the United Kingdom permanently without restriction;

"self-employed person" ("*person hunangyflogedig*") means-

(a) in relation to an EEA national, a person who is self-employed within the meaning of Article 7 of Directive 2004/38 or the EEA Agreement, as the case may be; or

(b) in relation to a Swiss national, a person who is a self-employed person within the meaning of Annex 1 to the Switzerland Agreement;

"self-sufficient" ("*hunangynhaliol*") means self-sufficient within the meaning of Article 7(1)(b) of Directive 2004/38;

"settled" ("*wedi setlo*") has the meaning given by section 33(2A) of the Immigration Act 1971(1);

"Swiss employed person" ("*person cyflogedig o'r Swistir*") means a Swiss national who is or, in the case of a person who applies for support after the moving date, was an employed person, other than a Swiss frontier employed person, in the United Kingdom;

"Swiss frontier employed person" ("*person cyflogedig ffin y Swistir*") has the meaning given in sub-paragraph (4);

"Swiss frontier self-employed person" ("*person hunangyflogedig ffin y Swistir*") has the meaning given in sub-paragraph (5);

"Swiss self-employed person" ("*person hunangyflogedig o'r Swistir*") means a Swiss national who is or, in the case of a person who applies for support after the moving date, was a self-employed person, other than a Swiss frontier self-employed person, in the United Kingdom;

"United Kingdom national" ("*gwladolyn o'r Deyrnas Unedig*") means a person who falls to be treated as a national of the United Kingdom for the purposes of the Community Treaties;

"worker" ("*gweithiwr*") means a worker within the meaning of Article 7 of Directive 2004/38 or the EEA Agreement, as the case may be.

(1) 1971 p.77; mewnosodwyd adran 33(2A) gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61).

(1) 1971 c.77; section 33(2A) was inserted by paragraph 7 of Schedule 4 to the British Nationality Act 1981 (c. 61).

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (6), ystyr "person hunangyflogedig ffin yr EEA" ("*EEA frontier self-employed person*") yw gwladolyn o'r EEA sydd-

- (a) yn berson hunangyflogedig yng Nghymru; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o wladwriaethau'r EEA heblaw'r Deyrnas Unedig ac yn dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y wladwriaeth honno yn yr EEA, yn ôl fel y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (6), ystyr "gweithiwr ffin yr EEA" ("*EEA frontier worker*") yw gwladolyn o'r EEA sydd-

- (a) yn weithiwr yng Nghymru; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o wladwriaethau'r EEA heblaw'r Deyrnas Unedig ac yn dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y wladwriaeth honno yn yr EEA, yn ôl fel y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos.

(4) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (6), ystyr "person cyflogedig ffin y Swistir" ("*Swiss frontier employed person*") yw gwladolyn o'r Swistir sydd-

- (a) yn berson cyflogedig yng Nghymru; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o wladwriaethau'r EEA heblaw'r Deyrnas Unedig ac yn dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y wladwriaeth honno yn yr EEA, yn ôl fel y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos.

(5) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (6), ystyr "person hunangyflogedig ffin y Swistir" ("*Swiss frontier self-employed person*") yw gwladolyn o'r Swistir sydd-

- (a) yn berson hunangyflogedig yng Nghymru; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o wladwriaethau'r EEA heblaw'r Deyrnas Unedig ac yn dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y wladwriaeth honno yn yr EEA, yn ôl fel y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos.

(6) Os bydd gwladolyn o'r EEA neu wladolyn o'r Swistir yn gwneud cais am gymorth ar ôl y dyddiad symud-

- (a) caniateir iddo gael ei drin fel person hunangyflogedig ffin yr EEA neu berson hunangyflogedig y Swistir, yn ôl fel y digwydd, os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni ei fod, yn union cyn y dyddiad symud-
  - (i) yn berson hunan-gyflogedig yng Nghymru; a
  - (ii) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o wladwriaethau'r EEA heblaw'r Deyrnas Unedig ac yn dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y

(2) Subject to sub-paragraph (6), "EEA frontier self-employed person" ("*person hunangyflogedig ffin yr EEA*") means an EEA national who-

- (a) is a self-employed person in Wales; and
- (b) resides in Switzerland or in the territory of an EEA State other than the United Kingdom and returns to his or her residence in Switzerland or that EEA State, as the case may be, daily or at least once a week.

(3) Subject to sub-paragraph (6), "EEA frontier worker" ("*gweithiwr ffin yr EEA*") means an EEA national who-

- (a) is a worker in Wales; and
- (b) resides in Switzerland or in the territory of an EEA State other than the United Kingdom and returns to his or her residence in Switzerland or that EEA State, as the case may be, daily or at least once a week.

(4) Subject to sub-paragraph (6), "Swiss frontier employed person" ("*person cyflogedig ffin y Swistir*") means a Swiss national who-

- (a) is an employed person in Wales; and
- (b) resides in Switzerland or in the territory of an EEA State other than the United Kingdom and returns to his or her residence in Switzerland or that EEA State, as the case may be, daily or at least once a week

(5) Subject to sub-paragraph (6), "Swiss frontier self-employed person" ("*person hunangyflogedig ffin y Swistir*") means a Swiss national who-

- (a) is a self-employed person in Wales; and
- (b) resides in Switzerland or in the territory of an EEA State other than the United Kingdom and returns to his or her residence in Switzerland or that EEA State, as the case may be, daily or at least once a week

(6) Where an EEA national or a Swiss national applies for support after the moving date-

- (a) he or she may be treated as an EEA frontier self-employed person or a Swiss employed person, as the case may be, if the National Assembly is satisfied that immediately before the moving date he or she was-
  - (i) a self-employed person in Wales; and
  - (ii) residing in Switzerland or in the territory of an EEA State other than the United Kingdom and returning to his or her residence in Switzerland or that EEA State,

wladwriaeth honno yn yr EEA, yn ôl fel y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

- (b) caniateir iddo gael ei drin fel gweithiwr ffin yr EEA neu berson cyflogedig ffin y Swistir, yn ôl fel y digwydd, os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni ei fod, yn union cyn y dyddiad symud-
  - (i) yn weithiwr neu'n berson cyflogedig yng Nghymru; a
  - (ii) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o wladwriaethau'r EEA heblaw'r Deyrnas Unedig ac yn dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y wladwriaeth honno yn yr EEA, yn ôl fel y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos.

(7) At ddibenion yr Atodlen hon, mae "rhiant" ("*parent*") yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson sy'n gofalu am blentyn ac mae "plentyn" ("*child*") i'w ddehongli yn unol â hynny.

(8) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person i'w drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir pe bai wedi bod yn preswyllo felly heblaw am y ffaith-

- (a) ei fod ef;
- (b) bod ei briod neu ei bartner sifil;
- (c) bod ei riant; neu
- (ch) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, bod ei blentyn neu briod neu bartner sifil ei blentyn,

yn cael ei gyflogi neu wedi cael ei gyflogi dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu, yn ôl fel y digwydd, y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir.

(9) At ddibenion is-baragraff (8), mae cyflogaeth dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn cynnwys-

- (a) yn achos aelodau o lynges, byddin neu lu awyr rheolaidd y Goron, unrhyw gyfnod y maent yn ei dreulio y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o'r lluoedd hynny; a
- (b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd un o wladwriaethau'r EEA neu'r Swistir, unrhyw gyfnod y maent yn ei dreulio y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir fel aelodau o'r lluoedd hynny.

(10) At ddibenion yr Atodlen hon-

- (a) mae ardal-

as the case may be, daily or at least once a week;

- (b) he or she may be treated as an EEA frontier worker or a Swiss frontier employed person, as the case may be, if the National Assembly is satisfied that immediately before the moving date he or she was-
  - (i) a worker or an employed person in Wales; and
  - (ii) residing in Switzerland or in the territory of an EEA State other than the United Kingdom and returning to his or her residence in Switzerland or that EEA State, as the case may be, daily or at least once a week.

(7) For the purposes of this Schedule, "parent" ("*rhiant*") includes a guardian, any other person having parental responsibility for a child and any person having care of a child and "child" ("*plentyn*") is to be construed accordingly.

(8) For the purposes of this Schedule, a person is to be treated as ordinarily resident in Wales, the United Kingdom and Islands or in the territory comprising the European Economic Area and Switzerland if he or she would have been so resident but for the fact that-

- (a) he or she;
- (a) his or her spouse or civil partner;
- (b) his or her parent; or
- (c) in the case of a dependent direct relative in the ascending line, his or her child or child's spouse or civil partner,

is or was temporarily employed outside Wales, the United Kingdom and Islands or, as the case may be, outside the territory comprising the European Economic Area and Switzerland.

(9) For the purposes of sub-paragraph (8), temporary employment outside of Wales, the United Kingdom or the territory comprising the European Economic Area and Switzerland includes-

- (a) in the case of members of the regular naval, military or air forces of the Crown, any period which they serve outside the United Kingdom as members of such forces; and
- (b) in the case of members of the regular armed forces of an EEA State or Switzerland, any period which they serve outside the territory comprising the European Economic Area and Switzerland as members of such forces.

(10) For the purposes of this Schedule-

- (a) an area which-



- (i) nad oedd gynt yn rhan o'r Gymuned Ewropeaidd neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; ond
- (ii) sydd ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym wedi dod yn rhan o'r naill neu'r llall o'r ardaloedd hynny neu o'r ddwy,

i'w hystyried fel pe bai bob amser wedi bod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd;

- (b) mae person sy'n sicrhau'r hawl i breswyllo'n barhaol ar ôl dechrau blwyddyn gyntaf y cwrs i'w ystyried fel pe bai'r statws hwnnw ganddo ar ddechrau blwyddyn gyntaf y cwrs;
(3) Mae unrhyw fyfyrwr yng Ngholeg Ewrop sydd â hawl fel myfyriwr cymwys annibynnol o dan is-baragraff (2)(h) mewn perthynas â blwyddyn academiaidd cwrs dynodedig yn cadw'r statws hwnnw drwy gyflog y cyfnod cymhwystra.

## RHAN 2

### Cyfrifo'r cyfraniad

#### Incwm yr aelwyd

2.-(1) Mae swm cyfraniad myfyriwr yng Ngholeg Ewrop neu fyfyrwr yn y Sefydliad yn dibynnu ar incwm yr aelwyd.

(2) Incwm yr aelwyd yw'r canlynol-

- (a) yn achos myfyriwr yng Ngholeg Ewrop nad yw'n fyfyrwr cymwys annibynnol, incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys wedi'i agregu gydag incwm gweddilliol rhieni'r myfyriwr yng Ngholeg Ewrop (yn ddarostyngedig i baragraff 4(9)) ac-

- (1) the student has supported himself or herself out of his or her earnings for any period or periods ending before the first academic year of the course which periods together are in aggregate not less than three years, and for the purposes of this paragraph the student is to be treated as supporting himself or herself out of his or her earnings during any period in which-
  - (i) he or she was participating in arrangements for training for the unemployed under any scheme operated by, or sponsored or funded by any state authority or agency, whether national, regional or local ("relevant authority");
  - (ii) he or she was in receipt of benefit payable by any relevant authority in respect of a person who is available for employment but who is unemployed;
  - (iii) he or she was available for employment and complied with any requirement of registration imposed by a relevant authority as a condition of entitlement for participation in arrangements for training or receipt of benefits;
  - (iv) he or she held a State Studentship or other comparable award; or
  - (v) the student received any pension, allowance or other benefit paid by any person by reason of a disability to which he or she is subject, or by reason of confinement, injury or sickness.

(3) Any College of Europe student who qualifies as an independent eligible student under sub-paragraph (2)(k) in respect of an academic year of a designated course retains that status for the duration of the period of eligibility.

## PART 2

### Calculation of contribution

#### Household income

2.-(1) The amount of a College of Europe student or an Institute student's contribution depends on the household income.

(2) The household income is-

- (a) in the case of a College of Europe student who is not an independent eligible student, the residual income of the eligible student aggregated with the residual income of the College of Europe student's parents (subject to paragraph 4(9)) and-

(i) yn achos myfyriwr newydd yng Ngholeg Ewrop a ddechreuodd y cwrs cyn 1 Medi 2005, incwm gweddilliol partner (heblaw person sydd fel arfer yn byw gyda rhiant myfyriwr cymwys fel pe bai'n bartner sifil i'r rhiant) rhiant y myfyriwr ar yr amod bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi dewis y rhiant hwnnw o dan baragraff 4(9); neu

(ii) yn achos myfyriwr newydd yng Ngholeg Ewrop a ddechreuodd y cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2005, incwm gweddilliol partner rhiant y myfyriwr (ar yr amod bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi dewis y rhiant hwnnw o dan baragraff 4(9));

(b) yn achos y canlynol-

(i) myfyriwr cymwys annibynnol y mae ganddo bartner, neu

(ii) myfyriwr yn y Sefydliad y mae ganddo bartner,

incwm gweddilliol y myfyriwr wedi'i agregu gydag incwm gweddilliol partner y myfyriwr hwnnw (yn ddarostyngedig i is-baragraff (5)); neu

(c) yn achos y canlynol-

(i) myfyriwr cymwys annibynnol nad oes ganddo bartner; neu

(ii) myfyriwr yn y Sefydliad nad oes ganddo bartner,

incwm gweddilliol y myfyriwr hwnnw.

(3) Wrth bennu incwm yr aelwyd, mae swm a gyfrifir yn unol ag is-baragraff (4) i'w ddiwyddu-

(a) yn achos myfyriwr yng Ngholeg Ewrop-

(i) am bob plentyn sy'n ariannol ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar y myfyriwr neu bartner y myfyriwr; neu

(ii) am bob plentyn heblaw'r myfyriwr yng Ngholeg Ewrop sy'n ariannol ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar riant y myfyriwr yng Ngholeg Ewrop neu bartner rhiant y myfyriwr yng Ngholeg Ewrop y mae ei incwm gweddilliol yn cael ei gymryd i ystyriaeth; a

(b) yn achos myfyriwr yn y Sefydliad am bob plentyn sy'n ariannol ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar y myfyriwr neu bartner y myfyriwr.

(4) Y swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (3) yw-

(a) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol, £1,025; a

(b) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd arall, £1,050.

(5) Er mwyn cyfrifo'r cyfraniad sy'n daladwy mewn perthynas â myfyriwr sy'n rhiant, nid yw incwm

(i) in the case of a new College of Europe student who began the course before 1 September 2005, the residual income of the partner of the student's parent (other than a person ordinarily living with the parent of an eligible student as if he or she were the parent's civil partner) provided that the National Assembly has selected that parent under paragraph 4(9); or

(ii) in the case of a new College of Europe student who began the course on or after 1 September 2005, the residual income of the partner of the student's parent (provided that the National Assembly has selected that parent under paragraph 4(9));

(b) in the case of-

(i) an independent eligible student who has a partner, or

(ii) an Institute student who has a partner,

the residual income of the student aggregated with the residual income of that student's partner (subject to sub-paragraph (5)); or

(c) in the case of-

(i) an independent eligible student who does not have a partner; or

(ii) an Institute student who does not have a partner,

the residual income of that student.

(3) In determining the household income an amount calculated in accordance with sub-paragraph (4) there is to be deducted-

(a) in the case of a College of Europe student-

(i) for each child wholly or mainly financially dependent on the student or his or her partner; or

(ii) for each child other than the College of Europe student wholly or mainly financially dependent on the College of Europe student's parent or the student's parent's partner whose residual income is being taken into account; and

(b) in the case of an Institute student, for each child wholly or mainly financially dependent on the student or his or her partner.

(4) The amount referred to in sub-paragraph (3) is-

(a) in respect of the current academic year, £1,025; and

(b) in respect of any other academic year, £1050.

(5) For the purpose of calculating the contribution payable in respect of a parent student, the residual

gweddilliol partner y myfyriwr sy'n rhiant i gael ei agregu o dan is-baragraff (2)(b) yn achos myfyriwr sy'n rhiant y mae gan ei blentyn ddyfarniad neu y mae gan blentyn ei bartner ddyfarniad-

- (a) y mae incwm yr aelwyd yn cael ei gyfrifo mewn perthynas ag ef gan gyfeirio at incwm gweddilliol y myfyriwr sy'n rhiant neu incwm gweddilliol partner y myfyriwr sy'n rhiant neu'r ddau; neu
- (b) y mae cyfraniad rhieni yn gymwys mewn perthynas ag ef fel arall gan gyfeirio at y myfyriwr sy'n rhiant neu ei bartner.

### Cyfrifo incwm gweddilliol y myfyriwr

3.-(1) Er mwyn pennu incwm gweddilliol myfyriwr, didynnir o'i incwm trethadwy (oni bai ei fod wedi'i ddidynnu eisoes wrth bennu'r incwm trethadwy) gyfanswm unrhyw symiau sy'n syrthio o fewn unrhyw un o'r is-baragraffau canlynol-

- (a) unrhyw dâl am waith a wnaed yn ystod unrhyw flwyddyn academiaidd ar gwrs y myfyriwr, ar yr amod nad yw'r tâl hwnnw'n cynnwys unrhyw symiau a dalwyd mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan oedd ganddo ganiatâd i fod yn absennol neu pan oedd wedi'i ryddhau o'i ddyletswyddau arferol er mwyn bod yn bresennol ar y cwrs hwnnw;
- (b) swm gros unrhyw bremiwm neu swm arall a dalwyd gan y myfyriwr mewn perthynas â phensiwn (nad yw'n bensiwn sy'n daladwy o dan bolisi yswiriant bywyd) y mae rhyddhad yn cael ei roi mewn perthynas ag ef o dan adran 273, 619 neu 639 o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988(1), neu o dan adran 188 o Ddeddf Cyllid 2004(2), neu os yw incwm y myfyriwr yn cael ei gyfrifo at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, swm gros unrhyw bremiwm neu swm o'r fath y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn perthynas ag ef os oedd y ddeddfwriaeth honno'n gwneud darpariaeth sy'n gyfatebol i'r Deddfau Treth Incwm.

(2) Os yw'r myfyriwr yn cael incwm mewn arian cyfredol heblaw sterling, gwerth yr incwm hwnnw at ddibenion y paragraff hwn yw-

- (a) os yw'r myfyriwr yn prynu sterling â'r incwm, swm y sterling a gaiff y myfyriwr fel hyn; neu
- (b) fel arall, gwerth y sterling y byddai'r incwm yn ei brynu gan ddefnyddio'r gyfradd a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol(3) ar gyfer y mis y ceir yr incwm ynddo.

income of the parent student's partner is not to be aggregated under sub-paragraph (2)(b) in the case of a parent student whose child or whose partner's child holds an award-

- (a) in respect of which the household income is calculated with reference to the residual income of the parent student or of the parent student's partner or of both; or
- (b) in respect of which a parental contribution is otherwise applicable with reference to the parent student or his partner.

### Calculation of the student's residual income

3.-(1) For the purpose of determining the residual income of a student, there is to be deducted from his or her taxable income (unless already deducted in determining taxable income) the aggregate of any amounts falling within any of the following sub-paragraphs-

- (a) any remuneration for work done during any academic year of the student's course, provided that such remuneration does not include any sums paid in respect of any period for which he or she has leave of absence or is relieved of normal duties for the purpose of attending that course;
- (b) the gross amount of any premium or other sum paid by the student in relation to a pension (not being a pension payable under a policy of life assurance) in respect of which relief is given under section 273, 619 or 639 of the Income and Corporation Taxes Act 1988(1) or under section 188 of the Finance Act 2004(2), or where the student's income is computed for the purpose of the income tax legislation of another Member State, the gross amount of any such premium or sum in respect of which relief would be given if that legislation made provision equivalent to the Income Tax Acts.

(2) Where the student receives income in a currency other than sterling, the value of that income for the purpose of this paragraph is-

- (a) if the student purchases sterling with the income, the amount of sterling the student so receives; or
- (b) otherwise, the value of the sterling the income would purchase using the rate for the month in which it is received published by the Office for National Statistics(3).

(1) 1988 p. 1.

(2) 2004 p. 12.

(3) "Financial Statistics" (ISSN 0015-203X).

(1) 1988 c. 1.

(2) 2004 c. 12.

(3) "Financial Statistics" (ISSN 0015-203X).

## Cyfrifo incwm gweddilliol y rhiant

4.-(1) Er mwyn pennu incwm trethadwy rhiant myfyriwr, ni wneir unrhyw ddiadyniadau y disgwyliid eu gwneud ac ni chaniateir unrhyw esemptiadau a ganiateid-

- (a) ar ffurf y rhyddhad personol y darperir ar ei gyfer ym Mhennod 1 o Ran VII o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988 neu, os yw'r incwm yn cael ei gyfrifo at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth EEA arall neu'r Swistir, swm gros unrhyw bremiwm o'r fath y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn perthynas ag ef os oedd y ddeddfwriaeth honno'n gwneud darpariaeth sy'n gyfatebol i'r Deddfau Treth Incwm;
- (b) yn unol ag unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol nad yw taliadau a fyddai fel arall yn cael eu trin o dan gyfraith y Deyrnas Unedig fel rhan o incwm y person yn cael eu trin felly yn unol â hwy; neu
- (c) o dan is-baragraff (2).

(2) Er mwyn pennu incwm gweddilliol rhiant, didynnir o'r incwm trethadwy a bennir o dan is-baragraff (1) gyfanswm unrhyw symiau sy'n syrthio o fewn unrhyw rai o'r is-baragraffau canlynol-

- (a) swm gros unrhyw bremiwm neu swm arall a dalwyd gan y myfyriwr sy'n ymwneud â phensiwn (nad yw'n bremiwm sy'n daladwy o dan bolisi yswiriant bywyd) y mae rhyddhad yn cael ei roi mewn perthynas ag ef o dan adran 273, 619 neu 639 o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988 neu o dan adran 188 o'r Ddeddf Cyllid, neu os yw incwm y myfyriwr yn cael ei gyfrifo at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth EEA arall neu'r Swistir, swm gros unrhyw bremiwm o'r fath y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn perthynas ag ef os oedd y ddeddfwriaeth honno'n gwneud darpariaeth sy'n gyfatebol i'r Deddfau Treth Incwm;
- (b) mewn unrhyw achos lle mae incwm yn cael ei gyfrifo yn unol ag is-baragraff (6) unrhyw symiau sy'n cyfateb i'r didyniad a grybwyllwyd yn is-baragraff (a), ar yr amod nad yw unrhyw symiau a didynnir fel hyn yn fwy na'r didyniadau a fyddai'n cael eu gwneud pe bai'r cyfan o incwm rhiant y myfyriwr mewn gwirionedd yn incwm at ddibenion y Deddfau Treth Incwm; ac
- (c) yn achos myfyriwr sy'n rhiant neu riant myfyriwr y mae ganddo ddyfarniad statudol-
  - (i) os yw'r myfyriwr yn hen fyfyriwr neu'n hen fyfyriwr Cyfarwyddeb sy'n gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hen flwyddyn academiaidd, £1,025; a
  - (ii) mewn unrhyw achos arall, £1,050.

## Calculation of parent's residual income

4.-(1) For the purposes of determining the taxable income of a student's parent, any deductions which fall to be made or exemptions which are permitted-

- (a) by way of personal reliefs provided for in Chapter 1 of Part VII of the Income and Corporation Taxes Act 1988, or where the income is computed for the purposes of the income tax legislation of another EEA State or Switzerland, the gross amount of any such premium in respect of which relief would be given if that legislation made provision equivalent to the Income Tax Acts;
- (b) pursuant to any enactment or rule of law under which payments which would otherwise under United Kingdom law form part of a person's income are not treated as such; or

(c) under sub-paragraph (2)

are not to be made or permitted.

(2) For the purpose of determining the residual income of a parent, there is to be deducted from the taxable income determined under sub-paragraph (1) the aggregate of any amounts falling within any of the following sub-paragraphs-

- (a) the gross amount of any premium or other sum paid by the student in relation to a pension (not being a pension payable under a policy of life assurance) in respect of which relief is given under section 273, 619 or 639 of the Income and Corporation Taxes Act 1988 or under section 188 of the Finance Act 2004, or where the student's income is computed for the purpose of the income tax legislation of another EEA State or Switzerland, the gross amount of any such premium or sum in respect of which relief would be given if that legislation made provision equivalent to the Income Tax Acts;
- (b) in any case where income is computed in accordance with sub-paragraph (6) any sums equivalent to the deduction mentioned in paragraph (a), provided that any sums so deducted are not to exceed the deductions which would be made if the whole of the student's parent's income were in fact income for the purposes of the Income Tax Acts; and
- (c) in the case of a parent student or a student's parent who holds a statutory award-
  - (i) where the student is an old student or an old Directive student applying for support in connection with an old academic year, £1,025; and
  - (ii) in any other case, £1,050.

(3) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni bod incwm y rhiant yn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau yn union cyn y flwyddyn berthnasol ("y flwyddyn ariannol gyfredol"), o ganlyniad i ryw ddigwyddiad y tu hwnt i reolaeth y rhiant, yn debyg o beidio â bod yn fwy na 85 y cant o werth sterling ei incwm yn y flwyddyn ariannol flaenorol, fe gaiff y Cynulliad Cenedlaethol, er mwyn galluogi'r myfyriwr cymwys i fod yn bresennol ar y cwrs heb galedi, ddarganfod incwm yr aelwyd am y flwyddyn ariannol gyfredol.

(4) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni bod incwm y rhiant mewn unrhyw flwyddyn ariannol, o ganlyniad i ryw ddigwyddiad y tu hwnt i reolaeth y rhiant, yn debyg o beidio â bod ac o barhau ar ôl y flwyddyn honno i beidio â bod yn fwy na 85 y cant o werth sterling ei incwm yn y flwyddyn ariannol flaenorol, fe gaiff y Cynulliad Cenedlaethol, er mwyn galluogi'r myfyriwr i fod yn bresennol ar y cwrs heb galedi, ddarganfod incwm yr aelwyd am flwyddyn academaidd cwrs y myfyriwr y digwyddodd y digwyddiad hwnnw ynddi drwy gymryd cyfartaledd incwm gweddilliol y rhiant am bob un o'r blynyddoedd ariannol y mae'r flwyddyn academaidd honno'n syrthio ynddynt fel ei incwm gweddilliol.

(5) Os yw rhiant y myfyriwr yn bodloni'r Cynulliad Cenedlaethol fod ei incwm yn deillio'n gyfan gwbl neu'n bennaf o elw busnes neu broffesiwn y mae'n ei gynnal, yna mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon o'r Atodlen at flwyddyn ariannol flaenorol i'w ddarllen fel cyfeiriad at y cyfnod cynharaf o ddeuddeng mis sy'n diweddu ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol flaenorol y mae cyfrifon yn cael eu cadw mewn perthynas ag ef sy'n ymwneud â'r busnes neu'r proffesiwn hwnnw.

(6) Os yw rhiant myfyriwr yn derbyn unrhyw incwm nad yw'n ffurfio rhan o incwm y rhiant hwnnw at ddibenion y Deddfau Treth Incwm neu ddeddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth EEA arall neu'r Swistir dim ond am y rheswm-

- (a) nad yw'r rhiant yn preswyllo, yn preswyllo fel arfer neu wedi ymgartrefu yn y Deyrnas Unedig, neu, os yw ei incwm yn cael ei gyfrifo fel petai at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth EEA arall neu'r Swistir, os nad yw'n preswyllo, yn preswyllo fel arfer neu wedi ymgartrefu felly yn yr Aelod-wladwriaeth honno neu'r Swistir;
- (b) nad yw'r incwm yn codi yn y Deyrnas Unedig, neu os yw incwm y rhiant yn cael ei gyfrifo at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth EEA arall neu'r Swistir, nad yw'n codi yn yr Aelod-wladwriaeth EEA honno neu'r Swistir; neu
- (c) bod yr incwm yn codi o swydd, gwasanaeth neu gyflogaeth y mae'r incwm ohonynt yn esempt rhag treth yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth,

(3) Where the National Assembly is satisfied that the income of the parent in the financial year beginning immediately before the relevant year ("current financial year") is, as a result of some event beyond the parent's control, likely to be not more than 85 per cent, of the sterling value of his or her income in the preceding financial year the Assembly may, for the purpose of enabling the student to attend the course without hardship, ascertain the household income for the current financial year.

(4) Where the National Assembly is satisfied that the income of the parent in any financial year is, as a result of some event beyond the parent's control, likely to be and to continue after that year to be not more than 85 per cent. of the sterling value of his or her income in the previous financial year the Assembly may, for the purpose of enabling the student to attend the course without hardship, ascertain the household income for the academic year of the student's course in which that event occurred by taking as the residual income of the parent the average of his or her residual income for each of the financial years in which that academic year falls.

(5) Where the student's parent satisfies the National Assembly that that parent's income is wholly or mainly derived from the profits of a business or profession carried on by him or her, then any reference in this Part of the Schedule to a preceding financial year is to be read as a reference to the earliest period of twelve months which ends after the start of the preceding financial year and in respect of which accounts are kept relating to that business or profession.

(6) Where a student's parent is in receipt of any income which does not form part of that parent's income for the purposes of the Income Tax Acts or the income tax legislation of another EEA State or Switzerland by reason only that-

- (a) the parent is not resident, ordinarily resident or domiciled in the United Kingdom, or where his or her income is computed as for the purposes of the income tax legislation of another EEA State or Switzerland, not so resident, ordinarily resident or domiciled in that EEA State or Switzerland;
- (b) the income does not arise in the United Kingdom, or where the parent's income is computed for the purposes of the income tax legislation of another EEA State or Switzerland, does not arise in that EEA State or Switzerland; or
- (c) the income arises from an office, service or employment, income from which is exempt from tax in pursuance of any legislation,

mae ei incwm trethadwy at ddibenion yr Atodlen hon i'w gyfrifo fel pe bai'r incwm o dan yr is-baragraff hwn yn rhan o'i incwm at ddibenion y Deddfau Treth Incwm neu ddeddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth EEA arall neu'r Swistir, yn ôl fel y digwydd.

(7) Os yw incwm rhiant y myfyriwr yn cael ei gyfrifo fel petai at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth EEA arall neu'r Swistir, mae i'w gyfrifo o dan ddarpariaethau'r Atodlen hon yn arian cyfredol yr Aelod-wladwriaeth EEA honno neu'r Swistir, ac incwm rhiant y myfyriwr at ddibenion yr Atodlen hon yw gwerth sterling yr incwm hwnnw wedi'i bennu yn unol â'r gyfradd ar gyfer y mis y mae diwrnod olaf y flwyddyn ariannol o dan sylw yn syrthio ynddo, fel y'i cyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

(8) Os yw un o rieni'r myfyriwr yn marw naill ai cyn neu yn ystod y flwyddyn berthnasol a bod incwm y rhiant hwnnw wedi'i gymryd i ystyriaeth er mwyn pennu incwm yr aelwyd neu y byddai wedi'i gymryd i ystyriaeth felly, yna-

- (a) os yw'r rhiant yn marw cyn y flwyddyn berthnasol, mae incwm yr aelwyd i'w bennu drwy gyfeirio at incwm y rhiant sydd wedi goroesi; neu
- (b) os yw'r rhiant yn marw yn ystod y flwyddyn berthnasol, cymerir mai cyfanswm y canlynol yw incwm yr aelwyd-
  - (i) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a bennir drwy gyfeirio at incwm y ddau riant, sef y gyfran mewn perthynas â'r rhan honno o'r flwyddyn berthnasol pan oedd y ddau riant yn fyw; a
  - (ii) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a bennir drwy gyfeirio at incwm y rhiant sydd wedi goroesi, sef y gyfran mewn perthynas â'r rhan honno o'r flwyddyn berthnasol sy'n weddill ar ôl i'r rhiant arall farw.

(9) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu bod y rhieni wedi gwahanu drwy gydol y flwyddyn berthnasol, mae incwm yr aelwyd i'w bennu drwy gyfeirio at incwm p'un bynnag o'r rhieni y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu mai ef yw'r mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau.

(10) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu bod y rhieni wedi gwahanu yn ystod y flwyddyn berthnasol, mae incwm yr aelwyd yn cael ei bennu drwy gyfeirio at gyfanswm y canlynol-

- (a) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a bennir yn unol ag is-baragraff (9), sef y gyfran mewn perthynas â'r rhan honno o'r flwyddyn berthnasol pan oedd y rhieni wedi gwahanu; a

his or her taxable income for the purpose of this Schedule is to be computed as though the income under this sub-paragraph were part of his or her income for the purpose of the Income Tax Acts or the income tax legislation of another EEA State or Switzerland, as the case may be.

(7) Where the income of the student's parent is computed as for the purposes of the income tax legislation of another EEA State or Switzerland, it is to be computed under the provisions of this Schedule in the currency of that EEA State or Switzerland and the income of the student's parent for the purposes of this Schedule is the sterling value of that income determined in accordance with the rate for the month in which the last day of the financial year in question falls, as published by the Office for National Statistics.

(8) Where one of the student's parents dies either before or during the relevant year and that parent's income has been or would be taken into account for the purpose of determining the household income then,-

- (a) where the parent dies before the relevant year, the household income is to be determined by reference to the income of the surviving parent; or
- (b) where the parent dies during the relevant year, the household income is to be taken to be the aggregate of-
  - (i) the appropriate proportion of the household income determined by reference to the income of both parents, being the proportion in respect of that part of the relevant year during which both parents were alive; and
  - (ii) the appropriate proportion of the household income determined by reference to the income of the surviving parent, being the proportion in respect of that part of the relevant year remaining after the death of the other parent.

(9) Where the National Assembly determines that the parents were separated for the duration of the relevant year, the household income is to be determined by reference to the income of whichever parent the National Assembly considers most appropriate under the circumstances.

(10) Where the National Assembly determines that the parents separated in the course of the relevant year, the household income is determined by reference to the aggregate of-

- (a) the appropriate proportion of the household income determined in accordance with sub-paragraph (9), being the proportion in respect of that part of the relevant year for which the parents are separated; and



- (b) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a bennir fel arall mewn perthynas â gweddill y flwyddyn berthnasol.

### **Cyfrifo incwm gweddilliol partner y myfyriwr**

5.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (3) a (4) o'r paragraff hwn a chan eithrio is-baragraffau (8), (9) a (10) o baragraff 4, mae incwm partner myfyriwr i'w bennu yn unol â pharagraff 4, gan ddehongli cyfeiriadau at y rhiant fel pe baent yn gyfeiriadau at bartner y myfyriwr.

(2) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu bod y myfyriwr a'i bartner wedi gwahanu drwy gydol y flwyddyn berthnasol, nid yw incwm y partner yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth bennu incwm yr aelwyd.

(3) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu bod y myfyriwr a'i bartner wedi gwahanu yn ystod y flwyddyn berthnasol, mae incwm y partner yn cael ei bennu drwy gyfeirio at ei incwm o dan is-baragraff (1) wedi'i rannu â hanner cant a dau ac wedi'u luosi â'r nifer o wythnosau cyflawn yn y flwyddyn berthnasol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu nad oedd y myfyriwr a'i bartner wedi gwahanu.

(4) Os oes gan fyfyriwr fwy nag un partner mewn unrhyw un flwyddyn academiaidd, mae darpariaethau'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â phob un.

### **Cyfrifo incwm gweddilliol partner rhiant**

6. Mae incwm partner rhiant myfyriwr newydd y mae ei incwm yn rhan o incwm yr aelwyd yn rhinwedd paragraff 2(2)(a) yn cael ei bennu yn unol â pharagraff 5, gan ddehongli cyfeiriadau at bartner y myfyriwr fel pe baent yn gyfeiriadau at bartner rhiant y myfyriwr newydd, a chan ddehongli cyfeiriadau at y myfyriwr fel pe baent yn gyfeiriadau at riant y myfyriwr.

### **Cyfrifo'r cyfraniad**

7.-(1) Mae cyfraniad myfyriwr i'w gyfrifo yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) O ran myfyriwr yng Ngholeg Ewrop nad yw'n fyfyriwr cymwys annibynnol, myfyriwr yng Ngholeg Ewrop sy'n fyfyriwr cymwys annibynnol ac y mae ganddo bartner a myfyriwr yn y Sefydliad y mae ganddo bartner, y cyfraniad yw-

- (a) mewn perthynas â'r flwyddyn academiaidd gyfredol-
- (i) os yw incwm yr aelwyd yn £22,010 neu fwy, £45 gan ychwanegu £1 am bob £9.50 cyflawn o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £22,010; a

- (b) the appropriate proportion of the household income determined otherwise in respect of the remainder of the relevant year.

### **Calculation of the student's partner's residual income**

5.-(1) Subject to sub-paragraphs (2), (3) and (4) of this paragraph and with the exception of sub-paragraphs (8), (9) and (10) of paragraph 4, a student's partner's income is to be determined in accordance with paragraph 4, reference to the parent being construed as references to the student's partner.

(2) Where the National Assembly determines that the student and his or her partner were separated for the duration of the relevant year, the partner's income is not taken into account in determining the household income.

(3) Where the National Assembly determines that the student and his partner separated in the course of the relevant year, the partner's income is determined by reference to his or her income under sub-paragraph (1) divided by fifty-two and multiplied by the number of complete weeks in the relevant year for which the National Assembly determines that the student and his or her partner were not separated.

(4) Where a student has more than one partner in any one academic year, the provisions of this paragraph apply in relation to each.

### **Calculation of parent's partner's residual income**

6. The income of a new student's parent's partner whose income is part of the household income by virtue of paragraph 2(2)(a) is to be determined in accordance with paragraph 5, references to the student's partner being construed as references to the new student's parent's partner, and references to the student being construed as references to the student's parent.

### **Calculation of contribution**

7.-(1) A student's contribution is to be calculated in accordance with this regulation.

(2) In relation to a College of Europe student who is not an independent eligible student, a College of Europe student who is an independent eligible student who has a partner and an Institute student who has a partner, the contribution is-

- (a) in respect of the current academic year-
- (i) where the household income is £22,010 or more, £45 with the addition of £1 for every complete £9.50 by which the household income exceeds £22,010; and

- (ii) mewn unrhyw achos lle mae incwm yr aelwyd yn llai na £22,010, dim.
- (b) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd arall-
  - (i) os yw incwm yr aelwyd yn £22,560 neu fwy, £45 gan ychwanegu £1 am bob £9.50 cyflawn o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £22,560; a
  - (ii) os yw incwm yr aelwyd yn llai na £22,010, dim.

(3) O ran myfyriwr yng Ngholeg Ewrop sy'n fyfyrwr cymwys annibynnol nad oes ganddo bartner a myfyriwr yn y Sefydliad nad oes ganddo bartner, y cyfraniad yw-

- (a) mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd gyfredol,
  - (i) os yw incwm yr aelwyd yn £10,250 neu fwy, £45 gan ychwanegu £1 am bob £9.50 cyflawn o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £10,250; a
  - (ii) os yw incwm yr aelwyd yn llai na £10,250, dim; a
- (b) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd arall-
  - (i) os yw incwm yr aelwyd yn £10,505 neu fwy, £45 gan ychwanegu £1 am bob £9.50 cyflawn o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £10,505; a
  - (ii) os yw incwm yr aelwyd yn llai na £10,505, dim.

(4) Rhaid i swm y cyfraniad beidio â bod yn fwy na'r canlynol-

- (a) os yw'r cyfraniad yn cael ei gyfrifo o dan is-baragraff (2)(a) neu (3)(a), £7,250; a
- (b) os yw'r cyfraniad yn daladwy o dan is-baragraff (2)(b) neu (3)(b), £7,430.

(5) Os yw is-baragraff (6) yn gymwys, rhaid i gyfanswm y cyfraniadau sy'n cael eu cyfrifo-

- (a) o dan is-baragraff (2)(a) neu (3)(a), beidio â bod yn fwy na'r canlynol-
  - (i) £7,250; neu
  - (ii) y cyfraniad a fyddai'n daladwy pe bai dyfarniad gan un myfyriwr yn unig.
- (b) o dan baragraff (2)(b) neu (3)(b), beidio â bod yn fwy na'r canlynol-
  - (i) £7,430; neu
  - (ii) y cyfraniad a fyddai'n daladwy pe bai dyfarniad gan un myfyriwr yn unig.

(6) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys os yw incwm yr aelwyd wedi'i ffurfio o incwm gweddilliol-

- (a) dau neu fwy o fyfyrwyr yng Ngholeg Ewrop mewn perthynas â'r un incwm o dan baragraff 4 neu, os yw incwm gweddilliol partner y

- (ii) in any case where the household income is less than £22,010, nil.

(b) in respect of any other academic year-

- (i) where the household income is £22,560 or more, £45 with the addition of £1 for every complete £9.50 by which the household income exceeds £22,560; and
- (ii) where the household income is less than £22,010, nil.

(3) In relation to a College of Europe student who is independent eligible student who does not have a partner and an Institute student who does not have a partner, the contribution is-

(a) in respect of the current academic year,

- (i) where the household income is £10,250 or more, £45 with the addition of £1 for every complete £9.50 by which the household income exceeds £10,250; and
- (ii) where the household income is less than £10,250, nil; and

(b) in respect of any other academic year-

- (i) where the household income is £10,505 or more, £45 with the addition of £1 for every complete £9.50 by which the household income exceeds £10,505; and
- (ii) where the household income is less than £10,505, nil.

(4) The amount of contribution is not to exceed-

- (a) where the contribution is calculated under sub-paragraph (2)(a) or (3)(a), £7,250; and
- (b) where the contribution is payable under sub-paragraph (2)(b) or (3)(b), £7,430.

(5) Where sub-paragraph (6) applies, the aggregate of the contributions calculated-

- (a) under sub-paragraph (2)(a) or (3)(a), is not to exceed-
  - (i) £7,250; or
  - (ii) the contribution which would be payable if only one student held an award.
- (b) under paragraph (2)(b) or (3)(b), is not to exceed-
  - (i) £7,430; or
  - (ii) the contribution which would be payable if only one student held an award.

(6) This sub-paragraph applies where the household income consists of the residual income of-

- (a) two or more College of Europe students in respect of the same income under paragraph 4 or, where the relevant parent's partner's

rhiant perthnasol yn cael ei gymryd i ystyriaeth, o dan baragraffau 4 a 6; neu

- (b) myfyriwr cymwys annibynnol a'i bartner os oes gan y ddau ddyfarniad statudol.

### **Rhannu cyfraniadau**

8.-(1) Os oes cyfraniad yn daladwy o dan baragraff 7 uchod a bod un neu fwy o'r amodau yn is-baragraff (2) wedi'u bodloni, swm y cyfraniad sy'n daladwy mewn perthynas â'r myfyriwr yng Ngholeg Ewrop fydd y swm y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu ei fod yn gyfiawn ar ôl cymryd i ystyriaeth-

- (a) sut mae paragraff 7 o'r Rhan hon o'r Atodlen yn cael ei gymhwyso at fyfyrwyr newydd yng Ngholeg Ewrop a myfyrwyr presennol ill dau; a
- (b) amgylchiadau penodol y myfyriwr yng Ngholeg Ewrop.

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) uchod yw-

- (a) bod gan fwy nag un o blant rhieni'r myfyriwr yng Ngholeg Ewrop ddyfarniad statudol;
- (b) bod gan riant y myfyriwr yng Ngholeg Ewrop ddyfarniad statudol;
- (c) bod gan bartner rhiant y myfyriwr yng Ngholeg Ewrop ddyfarniad statudol;
- (ch) bod gan bartner y myfyriwr yng Ngholeg Ewrop ddyfarniad statudol.

residual income is taken into account, under paragraphs 4 and 6; or

- (b) an independent eligible student and his or her partner where both hold a statutory award.

### **Split contributions**

8.-(1) Where a contribution is payable under paragraph 7 above and one or more of the conditions in sub-paragraph (2) are satisfied, the amount of contribution payable in respect of the College of Europe student is to be the amount that the National Assembly considers just taking into account-

- (a) the application of paragraph 7 of this Part of the Schedule to new College of Europe students and existing students respectively; and
- (b) the particular circumstances of the College of Europe student.

(2) The conditions referred to in sub-paragraph (1) above are-

- (a) more than one child of the College of Europe student's parents holds a statutory award;
- (b) the College of Europe student's parent holds a statutory award;
- (c) the College of Europe student's parent's partner holds a statutory award;
- (d) the College of Europe student's partner holds a statutory award.

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2006 Rhif 1794 (Cy.189)**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Grantiau Dysgu y  
Cynulliad (Sefydliadau  
Ewropeaidd) (Cymru) 2006

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2006 No. 1794 (W.189)**

**EDUCATION, WALES**

The Assembly Learning Grants  
(European Institutions) (Wales)  
Regulations 2006

©© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.